npm
national
preventive
mechanism

# Monitro lleoedd cadw

Pedwerydd **Adroddiad Blynyddol** ar Ddeg Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig
**2022/23**

**CP 995**

# Monitro lleoedd cadw

# Pedwerydd Adroddiad Blynyddol ar Ddeg Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol y Deyrnas Unedig

2022/23

Cyflwynwyd i'r Senedd gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder drwy Orchymyn Ei Fawrhydi

Tachweddr 2023

CP 995

© Hawlfraint y Goron 2024

TTrwyddedir y cyhoeddiad hwn o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i
**nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3**.

Lle rydym wedi nodi unrhyw wybodaeth am hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn**www.gov.uk/official-documents**.

Dylid anfon unrhyw ymholiadau am y cyhoeddiad hwn atom yn UKNPM@hmiprisons.gov.uk neu
HM Inspectorate of Prisons, 3rd floor, 10 South Colonnade, Canary Wharf, London E14 4PU

ISBN 978-1-5286-4598-0

E03033082 11/23

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 40% o ddeunydd ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU gan HH Associates Ltd. ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi

---

**Lluniwyd yr holl waith celf yn yr adroddiad hwn gan unigolion dan gadwad ac fe'i hatgynhyrchir drwy garedigrwydd Koestler Arts**

p07: **Expressionless**, Vinney Green (cartref diogel i blant), Gwobr â Chymeradwyaeth am Bortread i Unigolion o dan 18 Oed, 2023. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p14: **Hekate**, The Nelson Trust ((Gwasanaethau Cymunedol i Fenywod), Gwobr â Chymeradwyaeth Uchel am Gyfryngau Cymysg, 2023. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p18: **Sometimes, Peace**, Ysbyty State, Paentiad, 2023. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p25: **Feel My Pain**, HCarchar Ei Fawrhydi Highpoint, Gwobr Efydd am Wneud Printiau, 2023. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p26: **Choose Life**, Carchar Ei Fawrhydi Lowdham Grange, Categori ar y Thema: Diwrnod ym Mywyd, 2023. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p43: **Woman**, Sefydliad Troseddwyr Ifanc Ei Fawrhydi Cookham Wood, Portread, 2023. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p46: **The Blue Period**, Carchar Ei Fawrhydi Peterborough, Cyfryngau Cymysg, 2023. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p49: **A Day in the Yard**, Prisoners Abroad, Categori ar y Thema: Diwrnod ym Mywyd, 2023. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p50: **Tree of Life Always Watching**, Carchar Ei Fawrhydi Standford Hill (Clwstwr Sheppey), Categori ar y Thema: Diwrnod ym Mywyd, 2023. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

p56: **Stop. Unity, Peace,** Carchar Ei Fawrhydi Caerwysg, Gwobr Efydd am Gerflunwaith, 2023. Delwedd drwy garedigrwydd Koestler Arts.

# Cynnwys


Rhagair gan Wendy Sinclair-Gieben, Cadeirydd NPM y DU 4
Cyflwyniad 8
Ffeithlun - Mathau o leoedd cadw 10
Ffeithlun - Cwmpas daearyddol 11
Ysgrifenyddiaeth yr NPM 12
Is-grŵp yr NPM yn yr Alban 12
Is-grŵp yr NPM yng Ngogledd Iwerddon 12
Ymweliad y Pwyllgor er Atal Arteithio 13
Cyflwr lleoedd cadw yn y DU 14
Triniaeth ac amodau 18
  Ynysu, atal ac arwahanu 19
  Defnydd o rym 20
    Defnydd o rym: lleoliadau iechyd meddwl 22
  Amodau byw 23
Iechyd meddwl 26
  Yn y system cyfiawnder troseddol 27
    Dalfeydd yr heddlu a'r llysoedd 27
    Carchardai 29
    Lleoliadau plant 33
    Lleoedd cadw mewnfudwyr 34
  Lleoedd cadw mewn lleoliadau iechyd meddwl a lles 35
    Cymru a Lloegr 35
    Gogledd Iwerddon 39
    Yr Alban 40
  Lleoedd cadw iechyd meddwl: cyfraniadau at ddatblygu deddfwriaeth 41
Plant: lleoliadau pell a diwylliannau caeedig 44
Aelodau'r NPM; blaenoriaethau a gwaith presennol 48



# Rhagair gan Wendy Sinclair-Gieben Cadeirydd NPM y DU

**Dyma fy ail adroddiad blynyddol fel Cadeirydd Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) y DU. Dyma'r pedwerydd adroddiad blynyddol ar ddeg yn oes y sefydliad. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae ein haelodau wedi llunio miloedd o adroddiadau, gydag argymhellion ar gyfer gwella sy'n seiliedig ar eu gwaith yn monitro'r lleoedd hynny sy'n cadw pobl sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid.**

Mae'n rhaid i mi fynegi fy niolch diffuant i'r Fonesig Anne Owers y daeth ei thymor fel Cadeirydd Cenedlaethol y Byrddau Monitro Annibynnol (IMB) i ben yn ystod y flwyddyn adrodd hon, gan nodi diwedd cysylltiad hir â'r NPM. Mawr fu cyfraniad y Fonesig Anne i'r gwaith o fonitro ac arolygu lleoedd cadw yn y DU ac estynnodd yr arbenigedd hwnnw i'r NPM. Mae'n gadael gwaddol y gall ymfalchïo ynddo.

Cafodd NPM y DU ei sefydlu yn 2009 a'i fandad oedd cynnal ymweliadau annibynnol, rheolaidd â lleoedd cadw. Mae gweithgareddau'r NPM wedi ehangu'n sylweddol ers iddo gael ei sefydlu gyntaf. Maen nhw bellach yn cynnwys gwaith ar y cyd sy'n canolbwyntio ar feysydd penodol o gydymffurfiaeth â'r Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn Erbyn Artaith (OPCAT), yn ogystal â materion cadw thematig. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gwnaed llawer o waith i adolygu'r trefniadau llywodraethu a symud yr aelodaeth tuag at ddull strategol mwy cyfannol sydd bellach yn dwyn ffrwyth.

Wrth baratoi i lunio fy rhagair eleni, treuliais amser yn darllen rhagolygon blaenorol a ysgrifennwyd gan fy rhagflaenwyr gwych: John Wadham, David Strang a Nick Hardwick. Roedd yr unigolion hyn yn dod o gefndiroedd proffesiynol gwahanol, yn ysgrifennu ar adegau gwahanol ac o dan gyd-destunau gwleidyddol gwahanol drwy gydol ein 14 o flynyddoedd yn gweithredu. Er gwaethaf hyn, mae ein hadroddiadau yn hynod o debyg.

Byddwn yn parhau i roi sylw i broblemau hirsefydledig gorlenwi yn yr ystâd carchardai a diffyg mynediad at gyfleusterau iechyd meddwl diogel, ac adrodd ar y problemau hynny. O ran trefniadau cadw yn y pedair awdurdodaeth, gwnaethom nodi pryderon â'r canlynol:

- yr arafwch wrth ddychwelyd i gyfundrefn adsefydlu lawn ar ôl COVID-19
- prinder staff
- diffyg gweithgarwch adsefydlu
- diwylliannau caeedig
- poblogaeth gynyddol ar remand
- diffyg ymyriadau cymunedol
- hyfforddiant staff i gyd-fynd â chymhlethdod y carfannau newydd sydd yn y ddalfa a chydnabod y twf mewn pryderon iechyd meddwl a phoblogaethau sy'n heneiddio
- yr amodau a'r driniaeth mewn lleoedd cadw mewnfudwyr
- materion yn ymwneud â chydraddoldeb a gwahaniaethu
- lleoliadau anghofrestredig
- pellter oddi wrth deulu a chymunedau
- y cynnydd yn y defnydd o alcohol a sylweddau

Mae'n destun pryder ein bod wedi nodi niferoedd uchel o farwolaethau mewn carchardai o hyd. Cynhaliodd Ysgrifenyddiaeth yr NPM ddigwyddiad bord gron i aelodau, ombwdsmyn a chyrff ymchwilio eraill er mwyn trafod y pryder hwn a dod o hyd i ffyrdd o fynd i'r afael â marwolaethau y gellir eu hatal, gan gynnwys y ffaith nad oes data wedi'u dadgyfuno ar gael yn hawdd.

Mae'r adroddiad hwn, unwaith eto, yn rhoi sylw i lawer o'r problemau hynny. Ni fyddaf yn eu hailadrodd yma.

Mae NPM y DU yn cynnwys tua 3,500 o unigolion, o 21 o sefydliadau gwahanol, sy'n gwneud gwaith craffu hynod o eang a manwl. Gall y DU ac, yn wir, dylai'r DU fod yn falch o ddiwylliant sy'n agor drysau sefydliadau caeedig i gyrff annibynnol fel ni fel y gallwn adrodd ar amodau'r bobl sy'n cael eu cadw a'r ffordd y cânt eu trin. Mae'r wladwriaeth yn cydnabod bod y rhai sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn sefyllfa unigryw sy'n golygu eu bod yn agored i gael eu cam-drin, ac mae gwaith craffu hanfodol yn bwysig er mwyn atal hyn.

Ond i beth? Os yw'r 14 o adroddiadau a luniwyd gennyf fi a'm rhagflaenwyr yn debyg, pa effaith rydym yn ei chael mewn gwirionedd? Mae'n her yr wyf wedi bod yn gosod i mi fy hun a'm tîm dros y flwyddyn – ac a fydd yn tanlinellu strategaeth NPM y DU i symud meysydd craffu ymlaen, nodi rhwystrau i welliannau a gwneud argymhellion difrifol.

Wrth gwrs, byddai'n annheg rhoi darlun mor ddigalon heb unrhyw lygedyn o obaith. Gwnaed cynnydd mewn sawl maes a oedd yn peri pryder, ond cymerwyd camau yn ôl hefyd. Ni ddylid tanbrisio effaith COVID-19 ar y system gyfiawnder ac mewn lleoliadau iechyd, ond rydym yn adrodd ar ei effeithiau o hyd yn y cylch hwn er bod y cyfyngiadau wedi cael eu codi. Ar lefel leol, gall sefydliadau ymateb yn aml i bryderon a gwneud diwygiadau i wella profiad unigolion dan gadwad, ond erys problemau systematig heb eu datrys yn aml. Rydym yn cwrdd â staff medrus ac ymroddedig yn gyson sy'n dygymod â heriau cyllidebol neu bolisi sydd y tu hwnt i'w rheolaeth ond sy'n cael effaith sylweddol ar y lleoedd lle maent yn gweithio a'r bobl sy'n cael eu cadw yno.

Mae'r problemau â threfniadau cadw yn y DU yn hirsefydledig, yn gymhleth ac yn drawsbynciol. Bu angen newid sylfaenol ers tro fel bod lleoedd cadw ond yn cael eu defnyddio pan fo pob opsiwn arall wedi methu ac fel bod y system yn ystyried dealltwriaeth oleuedig. Yn y cyfamser, bydd ein sefydliadau yn parhau i arolygu a monitro lleoedd cadw er mwyn atal camdriniaeth, gan gyflawni ein mandad hawliau dynol.

Er mai dyma'r 14eg adroddiad blynyddol, bydd darllenwyr sylwgar yn nodi mai dim ond y 13eg adroddiad blynyddol i'w osod yn y Senedd ydyw. Roedd oedi parhaus gan y llywodraeth y flwyddyn ddiwethaf wedi ein hatal rhag gosod yr adroddiad yn y Senedd a bu'n rhaid inni ei gyhoeddi ar ein gwefan yn annibynnol. Caiff yr adroddiad hwn ei osod yn y Senedd er mwyn cydymffurfio â rhwymedigaeth y wladwriaeth o dan Erthygl 23 o OPCAT i gefnogi'r gwaith o gyhoeddi adroddiad NPM. Mae canllawiau'r Is-bwyllgor er Atal Arteithio ar y mater yn nodi'n glir "[t]he states parties to the Optional Protocol have a legal obligation to publish and widely disseminate the annual reports of NPMs, which should be presented to and discussed in Parliament".

Y flwyddyn nesaf, bydd yr NPM yn dathlu ei ben-blwydd yn 15 oed. Gobeithio y gallwn, bryd hynny, adrodd ar ddiwygiadau llawer mwy sylweddol ac y gall fy rhagair fod yn wahanol iawn i Mr Hardwick, Mr Wadham a Mr Strang.

Hoffwn ddiolch i'n holl bartneriaid, aelodau a rhanddeiliaid am eu hymrwymiad a'u cefnogaeth barhaus i'r sefydliad hwn.

Wendy Sinclair-Gieben

**Wendy Sinclair-Gieben**
Cadeirydd NPM y DU



# Cyflwyniad

Mae Mecanwaith Ataliol Cenedlaethol (NPM) y DU yn cynnwys 21 o gyrff sy'n monitro ac yn arolygu lleoedd cadw yn y DU er mwyn atal pobl sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid rhag cael eu harteithio a'u cam-drin. Mae'r aelodau i gyd yn cyflawni mandad yr NPM o dan y Protocol Dewisol i'r Confensiwn yn Erbyn Artaith (OPCAT). Nod OPCAT yw cryfhau mesurau diogelu ar gyfer pobl sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid, oherwydd cydnabyddir eu bod yn arbennig o agored i gael eu cam-drin. Yn ôl OPCAT, dylai ymdrechion i fynd i'r afael ag artaith a chamdriniaeth ganolbwyntio ar atal, a'r ffordd orau o wneud hyn yw drwy sefydlu NPM i ymweld â phob lleoliad lle mae pobl wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn annibynnol, yn ddirybudd ac yn rheolaidd. Cymeradwyodd y DU OPCAT ym mis Rhagfyr 2003 a dynododd ei NPM ym mis Mawrth 2009.

Mae gan NPM aml-gorff y DU gyfoeth o arbenigedd a chyrhaeddiad eang ar draws lleoliadau cadw. Mae'r NPM yn ei gyfanrwydd, a'r adroddiad hwn, yn cymryd cam yn ôl i edrych ar broblemau systemig ac arfer da mewn lleoliadau cadw gwahanol ledled y DU.

Yn adroddiad blynyddol y flwyddyn ddiwethaf, nodwyd bod y ddarpariaeth i'r rhai sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn y DU wedi gostwng, o ganlyniad i storm berffaith o argyfyngau staffio, cyllid, adferiad araf ar ôl COVID-19 a'r cyfyngiadau cysylltiedig. Y flwyddyn hon, er gwaethaf ymatebion cydgysylltiedig gan sefydliadau i bwysau ar y system o ganlyniad i'r pandemig, ac er bod y cyfyngiadau cenedlaethol wedi cael eu codi, roedd rhai o fesurau'r pandemig ar waith o hyd. Mae aelodau wedi defnyddio amrywiaeth o eiriau i ddisgrifio adferiad lleoliadau cadw ar ôl COVID-19, gan gynnwys “llesg”, “statig”, “di-frys” a “llonydd”. Effaith hyn yw darlun cenedlaethol o ddarpariaeth annerbyniol sydd wedi methu â dychwelyd i lefelau cyn COVID-19 yn y rhan fwyaf o achosion.

Erys llawer o'r problemau hyn ym mlwyddyn adrodd 2022-23. Mae lefelau staffio yn broblem gyson o hyd mewn carchardai, lleoliadau diogel i blant, dalfeydd yr heddlu a'r llysoedd ac ym maes amddifadu o ryddid at ddibenion iechyd meddwl ledled y DU. Mae'r adroddiad hwn yn dwyn ynghyd rai o'r themâu allweddol a chanfyddiadau ein haelodau sy'n ymweld â lleoedd cadw yn rheolaidd. Caiff lleoliadau cadw gwahanol eu hintegreiddio o dan themâu perthnasol. Yn wahanol i'n methodoleg adrodd arferol, nid oes adran ar wahân ar gyfer awdurdodaethau gwahanol nac ar gyfer y mathau gwahanol o leoedd cadw i gyd, ond cyfeirir atynt drwy gydol y naratif. Ni ddylid ystyried bod yr adroddiad hwn yn cynnwys yr holl faterion cadw a godwyd; yn hytrach, diben yr adroddiad yw rhoi trosolwg o'r materion allweddol sy'n berthnasol i leoliadau cadw yn y DU.

Nid oes dull system gyfan ar waith ym maes cyfiawnder troseddol, ysbytai a gwasanaethau iechyd. Fodd bynnag, lle roedd sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd, gwelwyd canlyniadau cadarnhaol. Roedd gwaith partneriaeth hefyd yn gryfder ymhlith aelodau. Yn ogystal ag arolygiadau, adolygiadau a gwerthusiadau ar y cyd rhwng aelodau a rhanddeiliaid eraill, gwelwyd egni o'r newydd yn Is-grŵp yr NPM yn yr Alban yn ystod y flwyddyn adrodd hon. Ym mis Hydref 2022, cafodd Is-grŵp yr NPM yng Ngogledd Iwerddon ei lansio a chynhaliodd ei gyfarfod chwarterol cyntaf ar 14 Ebrill 2023.

Caiff allbynnau a chyhoeddiadau allweddol gan aelodau eu crynhoi ar ddiwedd yr adroddiad

Er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am waith NPM y DU, tanysgrifiwch i'n cronfa ddata rhanddeiliaid drwy gysylltu â UKNPM@hmiprisons.gov.uk, ymweld â www.nationalpreventivemechanism.org.uk a'n dilyn ni ar Twitter @UKNPM.

# Mathau o leoedd cadw

### Carchardai a sefydliadau troseddwyr ifanc

- Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (gyda'r CQC ac Ofsted), ac IMB (Lloegr)
- Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (gydag AGIC) ac IMB (Cymru)
- HMIPS gyda CI, SHRC a MWCS (Yr Alban)
- CJI ac Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi gyda'r RQIA, ac IMB NI (Gogledd Iwerddon)

### Dalfeydd yr heddlu

- HMICFRS (gyda'r CQC), ac ICVA (Cymru a Lloegr)
- HMICS, ICVS (Yr Alban)
- CCJI gyda'r RQIA, NIPBICVS
- (Gogledd Iwerddon)

- **Hebrwng a dalfeydd y llysoedd**
- LSylwedyddion Lleyg ac Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (Cymru a Lloegr)
- HMIPS (Yr Alban)
- CJI (Gogledd Iwerddon)

### Cadw o dan y Ddeddf Terfysgaeth

- IRTL (Y Deyrnas Unedig)
- HMICFRS (gyda'r CQC)
- (Cymru a Lloegr)
- ICVA (Cymru a Lloegr)
- ICVS (Yr Alban)
- NIPBICVS (Gogledd Iwerddon)

### Plant mewn llety diogel

- Ofsted (ar y cyd ag Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi a'r CQC mewn perthynas â chanolfannau hyfforddi diogel (Lloegr))
- AGC (Cymru)
- CI (Yr Alban)
- RQIA, a'r CJI
- (Gogledd Iwerddon)

### Plant (ym mhob lleoliad cadw)

- CCE (Lloegr)

### Cadw o dan Gyfraith Iechyd Meddwl

- CQC (Lloegr)
- AGIC (Cymru)
- MWCS (Yr Alban)
- RQIA (Gogledd Iwerddon)

### Trefniadau diogelu wrth amddifadu o ryddid a mesurau diogelu eraill ym maes iechyd a gofal cymdeithasol

- CQC (Lloegr)
- AGIC ac AGC (Cymru)
- CI a MWCS (Yr Alban)

- RQIA (Gogledd Iwerddon)

### Lleoedd cadw mewnfudwyr

- Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ac IMB

### Lleoedd cadw milwrol

- Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi (Y Deyrnas Unedig)


# Cwmpas daearyddol

### Yr Alban

- Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban (HMIPS)
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban (HMICS)
- Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yr Alban (ICVS)
- Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS)
- Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban (SHRC)
- Yr Arolygiaeth Gofal (CI)

### Lloegr

- Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)
- Comisiynydd Plant Lloegr (CCE)
- Swyddfa Safonau mewn Addysg, Gwasanaethau Plant a Sgiliau (Ofsted)



### Y Deyrnas Unedig

- Adolygwr Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth (IRTL)

### Gogledd Iwerddon

- Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJI)
- Byrddau Monitro Annibynnol ar gyfer Gogledd Iwerddon (IMB NI)
- Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon (NIPBICVS)
- Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA)

### Cymru

- Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC)

### Cymru a Lloegr

- Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS)
- Cymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA)
- Byrddau Monitro Annibynnol (IMB)
- Sylwedyddion Lleyg (LO)

## Ysgrifenyddiaeth yr NPM

Cafodd Pennaeth newydd ei benodi ar gyfer Ysgrifenyddiaeth NPM y DU eleni, ynghyd â thri phenodiad newydd i'r tîm staff. Dros y flwyddyn, cytunwyd ar gyfansoddiad llywodraethu newydd ac fe'i rhoddwyd ar waith ac yn y gynhadledd ym mis Ebrill 2023, gwnaeth yr aelodau ddatblygu a chytuno ar gynllun busnes uchelgeisiol ar gyfer 2023 i 2025. Mae'r cynllun busnes yn cyfeirio at greu cronfa ddata o argymhellion, a fydd yn cynnwys yr holl faterion allweddol o allbynnau aelodau yn y dyfodol ac a fydd yn ffynhonnell gyfoethog o ddata.

Mae Ysgrifenyddiaeth yr NPM yn parhau i arwain a chefnogi gwaith ar y cyd o dan OPCAT ledled y DU. Mae'n cydgysylltu gwaith i ddwyn ynghyd argymhellion yr aelodau i gyd, nodi themâu allweddol i ymgysylltu ag ymarferwyr a llunwyr polisi, a chryfhau llais cyfunol yr NPM er mwyn hyrwyddo newidiadau systemig.

## Is-grŵp yr NPM yn yr Alban

Gyda'r Cadeirydd newydd, Jim Farish, parhaodd Is-grŵp NPM yr Alban â'i waith drwy gydol y flwyddyn adrodd, gan rannu gwersi i'w dysgu ac arferion gorau a defnyddio llais cyfunol i gael mwy o effaith gyda Llywodraeth yr Alban. Gwahoddwyd Health Improvement Scotland i gymryd rhan fel sylwedydd o ystyried ei rôl yn arolygu trefniadau gofal iechyd mewn carchardai a dalfeydd yr heddlu yn yr Alban. Lluniodd yr Is-grŵp gyflwyniad ar y cyd mewn ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar newidiadau i drefniadau dalfa a mechnïaeth.

## Is-grŵp yr NPM yng Ngogledd Iwerddon

Ym mis Hydref 2022, cytunodd aelodau'r NPM o Ogledd Iwerddon i ffurfio Is-grŵp yr NPM yng Ngogledd Iwerddon gyda Rachel Lindsay yn Gadeirydd, er mwyn:

- rhannu gwybodaeth am waith cyrff yr NPM yng Ngogledd Iwerddon
- nodi materion a diddordebau cyffredin
- cydgysylltu gweithgareddau'r NPM yng Ngogledd Iwerddon
- eystyried posibiliadau ar gyfer gweithgarwch ar y cyd
- codi proffil gwaith yr NPM
- gwella'r cydweithio â Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon
- rhoi cymorth i aelodau'r NPM yng Ngogledd Iwerddon i gymhwyso gofynion OPCAT
- defnyddio adnoddau hunanasesu a gwerthuso cymheiriaid fel ffordd o fesur gwelliant parhaus

Yr aelodau yw: y CJI, IMB (Gogledd Iwerddon), Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon, yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA), Pennaeth Ysgrifenyddiaeth NPM y DU a, thrwy wahoddiad, Cadeirydd NPM y DU.

## Ymweliad y Pwyllgor er Atal Arteithio

Mae gan NPM y DU berthynas gadarn a buddiol o hyd â Phwyllgor er Atal Arteithio (CPT) Cyngor Ewrop. Rydym yn rhannu gwersi i'w dysgu, arferion gorau a chanfyddiadau â'n gilydd er mwyn llywio ein gwaith.

Cynhaliodd y CPT ymweliad ad-hoc â Chyfleuster Cadw Byrdymor Manston, safle glanio Western Jet Foil, ac Uned Derbyn Caint ym mis Tachwedd 2022.[1] Cyflwynodd y CPT ei adroddiad i awdurdodau'r DU ym mis Chwefror 2023 gan ofyn am ymateb yn rhoi disgrifiad llawn o'r camau a gymerir i weithredu argymhellion y Pwyllgor. Mae ymateb llywodraeth y DU ar gael ar wefan Cyngor Ewrop.[2] Bydd yr NPM yn ymateb i adroddiad y CPT ac ymateb llywodraeth y DU yn ystod y flwyddyn adrodd nesaf. Yn y gwanwyn, ymwelodd y CPT â chyfleusterau cadw yn y DU sy'n canolbwyntio ar fewnfudo a bydd yn cyhoeddi ei ganfyddiadau yn ystod y flwyddyn adrodd nesaf..

1 Report to the United Kingdom government on the ad hoc visit to United Kingdom carried out by the European Committee for the Prevention of Torture and Inhuman or Degrading Treatment or Punishment (CPT) from 25 to 28 November 2022 – Cyngor Ewrop **(coe.int)**

2 Response of the United Kingdom government to the report of the European Committee for the Prevention of Torture and Inhuman or Degrading Treatment or Punishment (CPT) on its visit to the United Kingdom – Cyngor Ewrop **(coe.int)**

# Cyflwr lleoedd cadw yn y DU



Ym mis Mawrth 2022, ar ddiwedd y flwyddyn adrodd flaenorol, cyhoeddodd y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC) adroddiad cynnydd ar 'Out of sight – who cares?' o dan y teitl 'Restraint, segregation and seclusion review' ac mae'r adroddiad yn agor fel a ganlyn:

> **"The 'Out of sight' report was intended to stop unacceptable practice... This has not happened."[3]**

Mae rhwystredigaeth ag arsylwadau ac argymhellion mynych a hirsefydlog i'w gweld yn amlwg yn adroddiadau aelodau'r NPM o'r flwyddyn adrodd ddilynol. Yn adroddiad blynyddol 2022-23 Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr (HMIP), noda'r Prif Arolygydd Charlie Taylor:

> **"I have become increasingly frustrated by prisons whose future plans are so vague that it is hard to see when progress is going to be made."[4]**

Yn ei adroddiad ar ymweliadau ar y thema cymorth iechyd meddwl yng ngharchardai'r Alban, amlinellodd Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS):

> **"Our key messages of 2011 have not been realised."[5]**

Dywedodd y Fonesig Anne Owers, Cadeirydd y Byrddau Monitro Annibynnol (IBM) ar y pryd, gerbron Pwyllgor Cyfiawnder Tŷ'r Cyffredin:

> **"My first national annual report started: 'Staffing issues dominated annual reports ...They affected every kind of prison and every aspect of prison life.' That was 2017-18. We repeated the message in 2019-20 and 2020-21. My most recent annual report began: 'Staffing problems, rather than Covid, are now the principal brake on safe, humane and rehabilitative regime'... We have constantly referred to the theme."[6]**

CMae adroddiad Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJI), 'The operation of bail and remand in Northern Ireland', yn agor fel a ganlyn:

> **"The recommendations in this report yet again press for legislative reform to meet the needs of our criminal justice system today and tomorrow. We all know to achieve this we need a legislature and a place on a legislative programme."[7]**

---

3 Out of sight – who cares? Restraint, segregation and seclusion review – Comisiwn Ansawdd Gofal **(cqc.org.uk)**

4 HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales annual report 2022-23 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

5 Mental health support in Scotland's prisons 2021: under-served and under resourced – Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban **(mwcscot.org.uk)**

6 Tŷ'r Cyffredin, Pwyllgor Cyfiawnder, Tystiolaeth lafar: The prison operational workforce, HC 91

7 The operation of bail and remand in Northern Ireland – CArolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon **(cjini.org)**

Mae adroddiad arolygu gan Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban (HMIPS) yn cwyno:

> **"It was extremely disappointing to find that many of the same issues that we had seen and reported on when we last inspected ... had not been resolved. In particular, despite significant efforts by management, the lack of experienced staff remained a critical concern."[8]**

Mae Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban (HMICS) yn nodi yn ei hadroddiad blynyddol:

> **"At the end of March 2023, 84 recommendations were outstanding. These go back as far as 2015."[9]**

Mae adroddiad blynyddol Ofsted yn olrhain sefyllfa sy'n gwaethygu i blant sy'n aros am le mewn llety diogel, o gymharu ag adroddiadau'r flwyddyn flaenorol:

> **"In March this year, around 50 children who are at significant risk to themselves or others were waiting for a place in secure accommodation every day. This had almost doubled from 25 the previous year."**

**Ar draws awdurdodaethau a lleoliadau amddifadu o ryddid, nid yw amodau'n gwella'n ddigon cyflym, er gwaethaf arsylwadau ac argymhellion rheolaidd gan aelodau.**

Prif ganfyddiad yr adroddiad blynyddol hwn yw methiant sefydliadau i roi argymhellion aelodau'r NPM ar waith yn ddigonol.

Mae arsylwadau'r holl aelodau yn awgrymu, heb fuddsoddiad digonol gan lywodraeth y DU a'r llywodraethau datganoledig i gyllido gwasanaethau'n briodol, y bydd yn amhosibl mynd i'r afael â'r argymhellion a'r pryderon a fynegir yn yr adroddiadau. Mae hyn er gwaethaf canfyddiadau sy'n cyfeirio'n aml at arferion ardderchog ac ymdrechion personol gan staff o dan amgylchiadau heriol iawn.

Mae prinder staff, sy'n broblem gyson mewn lleoliadau cyfiawnder ac iechyd a gofal cymdeithasol, yn effeithio ar bob ymyriad arall a bydd yn ategu'r themâu â blaenoriaethau y cyfeirir atynt drwy gydol yr adroddiad hwn. Mewn perthynas ag adroddiad 'Cyflwr gofal' (State of care) 2021-22, nododd y CQC fod gwasanaethau dan bwysau gormodol o hyd a chyfeiriodd bron bob aelod arall at y risgiau sy'n gysylltiedig â niferoedd annigonol o staff a diffyg staff profiadol sydd wedi cael hyfforddiant digonol.[10] Mae diffyg mynediad at weithgarwch pwrpasol ac ailsefydlol yn broblem allweddol a nodwyd ar draws awdurdodaethau, gan ei fod yn gwaethygu problemau sy'n bodoli eisoes o ran ynysu a segurdod gorfodol mewn carchardai. Mewn cyd-destunau iechyd meddwl, mae problemau'n ymwneud â'r gweithlu yn effeithio ar ansawdd y gofal y mae hawl gan bobl ei ddisgwyl ac yn peryglu diogelwch cleifion a staff.[11]

8 HMP Addiewell full inspection 7-18 November 2022 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban **(prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

9 Annual report 2022-2023 – Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban **(hmics.scot)**

10 State of care 2021/22 – Comisiwn Ansawdd Gofal **(cqc.org.uk)**

11 Monitoring the Mental Health Act in 2021 to 2022 – Comisiwn Ansawdd Gofal **(cqc.org.uk)**

Cafodd yr effeithiau negyddol sy'n dod i'r amlwg pan nad oes trefniadau rhannu gwybodaeth cadarn ar waith rhwng gwasanaethau a phan nad oes trefniadau cadw cofnodion, dadansoddi ac ymchwilio digonol ar waith mewn lleoliadau cadw gwahanol eu nodi i raddau amrywiol mewn arolygiadau ac adroddiadau gan IMB, Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS), y CQC, HMICS, yr Arolygiaeth Gofal yn Lloegr, HMIP a Chymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA). Mae dyletswydd ar y DU o dan OPCAT i sicrhau bod gwybodaeth yn cael ei rhannu'n effeithiol â'r NPM. Mae hyn yn golygu bod yn rhaid i'r cyrff sy'n rhan o ystâd gadw'r DU gynnal safonau cywir, trylwyr a chyfredol ym maes cadw cofnodion a chraffu. Er mwyn sicrhau gofal cydlynol sy'n parhau wrth i berson symud drwy wasanaethau gwahanol, rhaid i'r gwasanaethau hynny rannu'r wybodaeth angenrheidiol a rhannu unrhyw wersi a ddysgwyd.

Mae anghydraddoldeb a gwahaniaethu yn ystyriaethau hollbwysig ym mhob un o'r themâu a nodwyd. Mae angen gweithredu ar frys, er enghraifft, er mwyn deall pam mae mwy o bobl o rai grwpiau ethnig, ac yn enwedig pobl ddu, yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, a mynd i'r afael â hynny.[12] Mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr, mae tystiolaeth o hiliaeth amlwg, ond esboniodd carcharorion du a staff carchar du mai'r hiliaeth dawel a llechwraidd oedd yn cael yr effaith fwyaf arnynt yn aml a'i bod hefyd yn fwy hirhoedlog.[13] Roedd pobl hŷn, pobl ag anableddau a phobl LHDTC+ hefyd yn wynebu bylchau o ran cymorth a mynediad mewn carchardai, lleoedd cadw mewnfudwyr, dalfeydd y llysoedd, dalfeydd yr heddlu ac mewn lleoliadau gofal, gan amlygu angen nad yw'n cael ei ddiwallu.[14]

12 Bil Iechyd Meddwl Drafft 2022 – Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi (parliament.uk); Monitoring the Mental Health Act in 2021 to 2022 – Comisiwn Ansawdd Gofal **(cqc.org.uk)**

13 Thematic review: The experiences of adult black male prisoners and black prison staff – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

14 Inspection of court custody unit provision, Glasgow Sheriff Court and Justice of the Peace Court – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban **(prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**; Inspection of court custody provision, Elgin Sheriff Court – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban **(prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**; Annual report of the Independent Monitoring Board at HMP Dartmoor 2021/22 – **Byrddau Monitro Annibynnol**; Annual report of the short-term holding facilities in Scotland and Northern Ireland 2021/22 – **Byrddau Monitro Annibynnol**

# Triniaeth ac amodau



Eleni, mae amodau mewn carchardai a lleoedd cadw mewnfudwyr yn y DU wedi bod yn destun sylwadau a gwaith craffu rhyngwladol. Mae aelodau'r NPM hefyd wedi codi pryderon drwy gydol y flwyddyn am agweddau ar yr amodau a'r driniaeth mewn lleoliadau cadw sy'n anghyson â'r Rheolau Sylfaenol Safonol ar gyfer Trin Carcharorion (Rheolau Nelson Mandela), y Rheolau Carchar Ewropeaidd, a'r normau derbyniedig ar gyfer trin y rhai sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ffordd urddasol a gwaraidd. Mae'r defnydd gormodol o ynysu mewn carchardai, achosion o dangofnodi'r defnydd o rym a thechnegau atal mewn dalfeydd ac, o bosibl, ddefnydd anghymesur ohonynt, a'r amodau byw mewn carchardai a lleoedd cadw mewnfudwyr wedi peri pryder penodol.

## Ynysu, atal ac arwahanu

Ar ddechrau 2023, gwrthododd llys yn yr Almaen estraddodi gŵr o Albania i'r DU ar seiliau hawliau dynol, gan gyfeirio at bryderon am yr amodau mewn carchardai ym Mhrydain. Ym mis Mehefin 2023, gwrthododd llys yn Iwerddon hefyd estraddodi gŵr i'r Alban, am y byddai'n debygol o orfod treulio 22 awr y diwrnod mewn cell fach.[15]

Nodwyd amodau gwael a chyfundrefn gyfyngedig, er gwaethaf cydberthnasau da rhwng carcharorion a staff, mewn unedau arwahanu mewn carchardai ledled y DU. Er bod gofynion sylfaenol yn cael eu bodloni – roedd hawl gan y rhan fwyaf o'r carcharorion mewn unedau arwahanu gael cawod, 30 munud o ymarfer corff ac un alwad ffôn bob dydd – dyma'r lleiaf y byddai'r NPM yn ei ddisgwyl.[16] Lle bo hynny'n bosibl, rhaid trefnu darpariaeth bellach, gan gynnwys disgwyliad ynghylch mwy o gyswllt ystyrlon.

Er bod tri charchar wedi gwella'r cymorth dysgu mewn celloedd a ddarperir gan staff addysg, nid oedd y rhan fwyaf o garcharorion yn cael unrhyw gyfle i gymryd rhan mewn gweithgareddau. Roedd cyfnodau hir dan glo mewn cell hefyd wedi cyfrannu at rwystredigaeth o fewn y boblogaeth mewn carchardai yn gyffredinol, gan arwain at lefelau uchel o drais mewn dros ddwy ran o dair o'r carchardai a arolygwyd yng Nghymru a Lloegr.[17] Roedd rhai unedau arwahanu yn llwm ac yn ddigalon heb lawer o fynediad at gyfundrefn ystyrlon na chymorth therapiwtig.[18] Mewn mannau eraill, roedd trefniadau goruchwylio a monitro gwan yn golygu ei bod yn amhosibl cyfiawnhau arwahanu nifer bach o fenywod, yr oedd rhai ohonynt yn wynebu risg o hunan-niweidio, am gyfnodau estynedig. Canfu HMIP, yn y rhan fwyaf o safleoedd, nad oedd gan blant a oedd wedi'u gwahanu gyfundrefn deg o gymharu â gweddill y ganolfan.[19]

Er iddo gael ei gyhoeddi y tu allan i'r cyfnod adrodd, nododd adolygiad thematig gan HMIPS o drefniadau arwahanu mewn carchardai yn yr Alban ganfyddiadau pryderus iawn, gan gynnwys gorddefnydd

15 Germany refuses man's extradition to UK over jail concerns – **Scottish Legal News**

16 HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales annual report 2022-23 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

17 HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales annual report 2022-23 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

18 HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales annual report 2022-23 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

19 HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales annual report 2022-23 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

o arwahanu at ddibenion iechyd meddwl yn yr ystâd carchardai. Roedd gormod o garcharorion yn wynebu cyfnodau niweidiol o hir mewn unedau arwahanu a elwir yn Unedau Gwahanu ac Ailintegreiddio. Ni allent gael isafswm o ddwy awr o gyswllt dynol ystyrlon bob dydd yn unol â Rheolau Nelson Mandela, ac nid oedd digon yn cael ei wneud i ddatrys y problemau unigol a oedd yn arwain at gyfnodau mewn Unedau Gwahanu ac Ailintegreiddio a helpu carcharorion i ailintegreiddio.[20]

Yng Ngogledd Iwerddon, daeth adolygiad yn 2022 o weithredu trefniadau arwahanu, a elwir yn Unedau Gofal a Goruchwyliaeth, i'r casgliad bod nifer o garcharorion yn yr unedau hyn wedi profi amodau a oedd yn gyfystyr â charchariad unigol.[21]

## Defnydd o rym

Roedd y defnydd o rym wedi lleihau yn yr ystad i ddynion yng Nghymru a Lloegr ond roedd trefniadau goruchwylio a llywodraethu yn amrywio. Roedd defnydd gwael o gamerâu a wisgir ar y corff yn golygu nad oedd defnydd o rym wedi cael ei recordio mewn 12 o garchardai.[22] Roedd swyddogion yn defnyddio mwy o rym nag oedd ei angen ac iaith anweddus yn erbyn carcharorion mewn un carchar, nid oedd ymchwiliadau digonol yn cael eu cynnal i'r rhesymau dros ddefnyddio grym mewn un arall, ac roedd trefniadau goruchwylio gwael mewn dau arall. Canfu adolygiad o brofiadau carcharorion du fod defnydd anghymesur mynych o rym yn cael effaith negyddol ar brofiadau carcharorion du o ddalfeydd.[23] Nododd un IMB fod 50% o'r achosion o ddefnyddio grym yn ymwneud â charcharorion du, a oedd yn cyfrif am 30% o boblogaeth y carchar.[24]

Nododd IMBau fod y defnydd o chwistrell PAVA wedi ymestyn o garchardai lle roedd cynlluniau ar waith i'w defnyddio i garchardai eraill heb unrhyw gyhoeddiad. Mae'r posibilrwydd y caiff chwistrell PAVA ei defnyddio mewn sefydliadau troseddwyr ifanc yn mynd yn groes i argymhellion y CPT na ddylai chwistrell PAVA fod yn rhan o gyfarpar safonol staff dalfeydd ac na ddylid ei defnyddio mewn mannau cyfyng.[25] Mewn sefydliadau troseddwyr ifanc a chanolfannau hyfforddi diogel yng Nghymru a Lloegr, roedd prosesau rheoli ymddygiad gwell yn cyfateb i lefelau is

20 A thematic review of segregation in Scottish prisons –Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban **(prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

21 A review into the operation of Care and Supervision Units in the Northern Ireland Prison Service – Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon **(cjini.org)**

22 HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales annual report 2022-23 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

23 Thematic review: The experiences of adult black male prisoners and black prison staff – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

24 Chwefror2023 – The role of Independent Monitoring Boards (IMBs) – Ymddiriedolaeth Diwygio Carchardai **(prisonreformtrust.org.uk)**

25 Cwestiynau, atebion a datganiadau ysgrifenedig – Canolfannau hyfforddi diogel a sefydliadau troseddwyr ifanc: chwistrell pupur – Senedd y DU **(questions-statements.parliament.uk)**; Report to the government of the United Kingdom on the visit to the United Kingdom carried out by the European Committee for the Prevention of Torture and Inhuman or Degrading Treatment or Punishment (CPT) from 30 March to 12 April 2016 – Cyngor Ewrop **(coe.int)**

o rym.[26] Lle roedd technegau a oedd yn achosi poen wedi cael eu defnyddio'n amhriodol yn Feltham, roedd camau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pryderon a gofnodwyd gan HMIP.

Mae'r Comisiynydd Plant yn Lloegr yn nodi bod prosesau ynysu ac atal yn cael eu defnyddio'n rhy aml mewn lleoliadau diogel i blant yn Lloegr, gan gynnwys cartrefi plant, mewn ymateb i ddigwyddiadau lefel isel ar adegau. Yn unol â'r egwyddor o les pennaf y plentyn, ni ddylid defnyddio prosesau atal i gadw trefn ond yn hytrach fel mesur diogelwch yn unig i amddiffyn plentyn neu drydydd parti.[27] Dylai unrhyw ddefnydd o rym mewn lle cadw fod yn angenrheidiol, yn gyfiawn ac yn gymesur bob amser. Rhaid i wladwriaethau sicrhau bod plant sy'n cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn cael eu trin â pharch a thrugaredd.[28]

Canfu arolygiadau o garchardai yn yr Alban ymarfer derbyniol i foddhaol ar y cyfan o ran y defnydd o rym, gyda dulliau atal corfforol ond yn cael eu defnyddio pan oedd angen ac yn unol â'r gyfraith.[29] Fodd bynnag, canfu adolygiad thematig HMIPS o arwahanu mewn carchardai honiadau difrifol o drais a bwlio gan staff yn erbyn carcharorion, yn ystod gweithdrefnau rheoli ac atal.[30] Os caiff y rhain eu profi, mae hwn yn achos clir o gamdriniaeth fwriadol. Fodd bynnag, pan godwyd y mater â'r awdurdod, gweithredodd yr arweinwyr yn gyflym.

IYng Ngogledd Iwerddon, canfu arolygiad ar y cyd (RQIA a'r CJI) o Garchar Maghaberry drefniadau llywodraethu da a defnydd lefel isel o rym yn bennaf. Lle canfuwyd bod staff wedi defnyddio grym gormodol, cymerodd yr arweinwyr gamau priodol.[31] Roedd y defnydd o rym wedi lleihau ers yr arolygiad diwethaf yn 2018 ond roedd ychydig yn uwch o gymharu â charchardai tebyg yng Nghymru a Lloegr. Yng Nghanolfan Cyfiawnder Ieuenctid Woodlands hefyd, roedd y defnydd o rym wedi lleihau ers yr arolygiad diwethaf.[32] Er bod trefniadau llywodraethu da ar waith o ran y defnydd o rym, argymhellodd y CJI y dylid gwneud gwelliannau i brosesau cadw cofnodion er mwyn sicrhau bod camau dilynol yn cael eu cymryd mewn perthynas â chymorth ar ôl digwyddiad a bod y cymorth hwnnw'n cael ei werthuso.

---

26 HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales annual report 2022-23 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

27 Family contact in youth custody – Comisiynydd Plant Lloegr **(childrenscommissioner.gov.uk)**

28 Testun y Confensiwn ar Hawliau'r Plentyn – UNICEF **(unicef.org)**

29 HMP Castle Huntly full inspection 20 June to 1 July 2022 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban **(prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**; HMP Inverness full inspection 15-26 August 2022 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban **(prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**; **HMP** Addiewell full inspection 7-18 November 2022 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban **(prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**; HMP Greenock full inspection 27 February to 3 March 2023 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban **(prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**; HMP Shotts full inspection 9-20 May 2022 Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban **(prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**;

30 A thematic review of segregation in Scottish prisons – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban **(prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

31 An unannounced inspection of Maghaberry Prison 20 September-6 October 2022 – Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon **(cjini.org)**

32 An unannounced inspection of Woodlands Juvenile Justice Centre – Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon **(cjini.org)**

Yn nalfeydd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr, cynhaliodd ICVA adolygiad thematig o'r defnydd o ddillad gwrth-rwygo yn nalfeydd yr heddlu yn seiliedig ar adroddiadau HMICFRS a HMIP. Nodwyd problemau cyson pan ddefnyddiwyd y dillad yn absenoldeb gwybodaeth am risg, yn aml drwy rym, ac o bosibl fel mesur cosbi. Nid oedd cofnodion digonol yn cael eu cadw o gymesuredd yr arfer hwn na'r cyfiawnhad drosto a nodwyd bod y dillad yn cael eu defnyddio'n ddiangen ar gyfer unigolion dan gadwad ar drefn arsylwi Lefel 4. Yn hanfodol, codwyd pryderon difrifol am urddas unigolion dan gadwad, yn enwedig pan roedd dillad yn cael eu tynnu i ffwrdd drwy rym. Mewn rhai achosion, cafodd unigolion dan gadwad eu gadael yn noeth er mwyn rheoli ymddygiad, a hynny mewn dalfeydd lle roedd dillad gwrth-rwygo yn cael eu defnyddio a dalfeydd lle nad oeddent yn cael eu defnyddio. Sicrhaodd ICVA farn gyfreithiol pro bono ar y defnydd dan orfod o wisgoedd gwrth-rwygo yn absenoldeb gwybodaeth am risg. Lle bo modd defnyddio dulliau eraill o fonitro tebygolrwydd unigolyn dan gadwad o ymddwyn mewn ffordd niweidiol, daeth y farn i'r casgliad bod yr arfer hwn yn debygol o fod yn anghyfreithlon, gan godi pryderon difrifol ynghylch camdriniaeth.[33]

Nododd HMICFRS a'r CQC fod diffyg trefniadau i graffu ar y defnydd o rym a thechnegau atal yn nalfeydd yr heddlu yn destun pryder yn y rhan fwyaf o arolygiadau.[34] Roedd data anghywir, methiant i lenwi ffurflenni ar ddigwyddiadau lle defnyddiwyd grym, cofnodion dalfa anghyflawn, a sicrwydd ansawdd cyfyngedig yn atal heddluoedd rhag dangos bod grym, pan roedd yn cael ei ddefnyddio, yn angenrheidiol, yn gyfiawn ac yn gymesur. Codwyd pryderon hefyd am amddiffyn a chynnal urddas unigolion dan gadwad pan roedd eu dillad yn cael eu tynnu..

Yng Ngogledd Iwerddon, parhaodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd â'u mandad i gynnal ymweliadau dirybudd â gorsafoedd yr heddlu ac adrodd ar hawliau, iechyd a llesiant, ac amodau unigolion a gaiff eu cadw yn y ddalfa. Uwchgyfeiriodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd bryderon difrifol ynghylch y defnydd o rym a gweithgarwch troseddol honedig yn nalfeydd yr heddlu y maent yn parhau i'w monitro.[35]

## Defnydd o rym: lleoliadau iechyd meddwl

Wrth ystyried y defnydd o rym mewn lleoliadau amddifadu o ryddid, mae'n rhaid ystyried Deddf Unedau Iechyd Meddwl (Defnyddio Grym) 2018. Er i'r Ddeddf gael cydsyniad brenhinol yn 2018, ni ddaeth unrhyw rai o'r darpariaethau i rym tan fis Mawrth 2022, ac mae rhai darpariaethau heb gael eu rhoi ar waith o hyd. Roedd gofynion penodol ar waith cyn i'r Ddeddf ddod i rym, fel lefel uwch o fanylion am ymyriadau cyfyngol (mewn grym ers 2019) a hyfforddiant ardystiedig sy'n cydymffurfio â safonau'r Rhwydwaith ar gyfer Lleihau Arferion Cyfyngol. Ers i'r Ddeddf ddod i rym, noda'r CQC nad yw nifer yr ymyriadau cyfyngol wedi gostwng. Fodd bynnag, mae hynny'n rhannol am fod mwy o ddarparwyr wedi dechrau cyflwyno data. Mae adborth anecdotaidd gan arolygwyr

33 Anti-rip clothing in custody: Interim evaluation – Cymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd **(icva.org.uk)**

34 CArchifau dalfeydd – Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi **(justiceinspectorates.gov.uk)**

35 Independent custody visiting report, April 2022 to March 2023 – Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon **(nipolicingboard.org.uk)**

y CQC a gwaith adolygu polisïau wedi creu darlun cymysg o weithrediad. Mae gan y CQC bellach safbwynt polisi ar arferion cyfyngol ym mhob un o'r sectorau iechyd a gofal cymdeithasol ac mae'n bwriadu cynnal ymarfer samplu â chroestoriad o ddarparwyr iechyd meddwl ar ddechrau 2024.

## Amodau byw

Mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr a'r Alban, roedd gorlenwi yn broblem barhaus a hirsefydledig. Cododd HMIP bryderon droeon am amodau byw gwael, gan gynnwys y defnydd o gelloedd a gynlluniwyd ar gyfer un person i ddal dau. Roedd y celloedd hyn yn gyfyng ac yn aml nid oeddent yn ddigon preifat nac yn cynnwys digon o ddodrefn, cyfarpar sgrinio digonol na thoiledau o ansawdd priodol.[36] Mae gorboblogi yng ngharchardai'r Alban wedi bod yn bryder allweddol i HMIPS ers dros ddegawd, gyda llawer o garchardai yn dal i weithredu'n rheolaidd uwchlaw'r capasiti a gynlluniwyd.[37]

Mewn lleoedd cadw mewnfudwyr, er bod staff yn ymdrechu i gadw'r pebyll mawr yn Manston yn lân ac yn daclus, nododd yr IMB fod cyflwr y safle yn aflan a nododd "the cleanliness of the facility, overcrowding, close contact and sharing of blankets also raise[d] serious concerns for the risk of cross contamination of diseases".[38] Mae'r arsylwadau hyn a'r brigiadau o glefydau a marwolaeth un unigolyn dan gadwad o diptheria yn codi cwestiynau difrifol am urddas, triniaeth annynol a diraddiol, a rhwymedigaeth gadarnhaol y wladwriaeth i amddiffyn yr hawl i fywyd.

Yn seiliedig ar adroddiadau ynghylch amodau peryglus mewn lleoedd cadw mewnfudwyr yn y DU, cynhaliodd y CPT ymweliad ad-hoc â'r DU yn ystod y flwyddyn hon. Nododd y CPT ei fod o'r farn bod y pebyll mawr yn Manston yn ddigonol i gadw pobl am hyd at 24 awr ar yr amod bod eu capasiti uchaf yn cael ei leihau.

> **"The CPT also notes that, in its view, during the latter half of October 2022 and the beginning of November 2022 when Manston Short-Term Holding Facility was severely overcrowded, the cumulation of prolonged detention in very poor conditions may have resulted in many persons held at Manston Short-Term Holding Facility having been subjected to inhuman and degrading treatment."[39]**

IMewn canolfannau symud mewnfudwyr, roedd unigolion yn cael eu dal am gyfnodau hir, gyda phum person yn cael eu dal yn Brook House am dros chwe mis (un am 16 mis) heb fawr o obaith o gael eu symud.[40]

36 HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales annual report 2022-23 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

37 HM Chief Inspector's annual report 2022-23 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban **(prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

38 Llythyr at Gadeiryddion Pwyllgorau Dethol gan Gadeirydd Cenedlaethol IMB ynghylch arsylwadau IMB ar amodau yng Nghyfleuster Cadw Byrdymor Manston – Byrddau Monitro Annibynnol

39 Report to the United Kingdom government on the ad hoc visit to United Kingdom carried out by the European Committee for the Prevention of Torture and Inhuman or Degrading Treatment or Punishment (CPT) from 25 to 28 November 2022 – Cyngor Ewrop **(coe.int)**

40 HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales annual report 2022-23 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

Roedd unigolion yn parhau i gael eu dal dan gadwad am nad oedd digon o lety addas yn y gymuned, gan gynnwys pobl agored iawn i niwed a oedd wedi cael eu rhyddhau ar fechnïaeth. Roedd rhai wedi bod yn aros am lety addas am bum mis..


Mae'r llysoedd o'r farn mai dim ond os oes gobaith y caiff pobl eu symud yn rhesymol o gyflym y gellir eu dal dan gadwad yn gyfreithlon. Yn 2019, nododd HMIP "the lack of a detention time limit was often cited by detainees as affecting their feelings of wellbeing".[41] Rhaid i drefniadau cadw fod yn gymesur, rhaid eu defnyddio am gyn lleied o amser ag sydd angen, a rhaid osgoi achosi niwed ychwanegol i'r unigolion dan gadwad. Os caiff pobl eu dal dan gadwad am gyfnodau estynedig ac amhenodol, mae perygl y bydd yn amhosibl cyflawni'r disgwyliadau hyn.

Cyflwynodd Comisiynydd Plant Lloegr sawl brîff i ASau ar y Bil Mudo Anghyfreithlon (sef y Ddeddf Mudo Anghyfreithlon bellach), gan gynnwys ar ei phryderon ynghylch plant sy'n cael eu cadw yn Uned Dderbyn Caint ac ym Manston, o ystyried yr amodau byw. Nododd yr Adolygwr Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth y gallai'r Ddeddf Cenedligrwydd a Ffiniau, a basiwyd yn 2022, greu rhai newidiadau o safbwynt trefniadau cadw o dan Atodlen 7 o Ddeddf Terfysgaeth 2000, yn yr ystyr ei bod yn cymhwyso Atodlen 7 ble bynnag y mae pobl yn cyrraedd y DU, nid mewn porthladdoedd yn unig.[42] Mae Atodlen 7 yn bŵer diogelwch gwladol mewn perthynas â phorthladdoedd a ffiniau. Mae'n galluogi swyddog archwilio i stopio, chwilio, holi a chadw person sy'n teithio drwy borthladd, maes awyr neu ardal ar y ffin er mwyn pennu a yw wedi comisiynu, paratoi neu annog gweithredoedd terfysgol.[43] Gellir dal unigolion dan gadwad am hyd at chwe awr a rhaid i hynny ddigwydd os caiff y person ei archwilio am fwy nag awr.

41 Report on an unannounced inspection of Brook House Immigration Removal Centre by HM Chief Inspector of Prisons 30 May-16 June 2022 – Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

42 Ymateb yr Adolygwr Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth **(independent.gov.uk)**

43 Deddf Terfysgaeth 2020, Atodlen 7



# Iechyd meddwl



Mae cyffredinrwydd problemau iechyd meddwl acíwt a chymhleth ymhlith y rhai sy'n dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol, a diffygion ac oedi o safbwynt eu triniaeth ar ôl iddynt gael eu cadw, wedi bod yn destun pryder ers tro i aelodau'r NPM. Yn sgil yr angen iechyd meddwl difrifol, yn enwedig nifer y bobl yr oedd angen triniaeth mewn ysbyty arnynt ond a oedd yn cael eu cadw yn y ddalfa, cafodd aelodau'r NPM eu hysgogi i sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar iechyd meddwl er mwyn adeiladu ar y canfyddiadau a nodir isod drwy rannu gwersi i'w dysgu ac allbynnau. Caiff niferoedd isel o staff, trefniadau rhannu gwybodaeth a chofnodion anghyflawn, ac amodau sy'n gwaethygu iechyd meddwl gwael eu nodi yn nalfeydd yr heddlu, carchardai, lleoliadau diogel i blant a lleoedd cadw mewnfudwyr. Yn y cyfamser, mae prinder gwelyau rhydd mewn lleoliadau iechyd ac ysbytai, diffyg darpariaeth gymunedol gyflawn, ac ymwybyddiaeth annigonol o'r gyfraith a gweithdrefnau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn arwain at amddifadu pobl o'u rhyddid yn anghyfreithlon o bosibl a thebygolrwydd uwch o ddatblygu diwylliannau caeedig.

## Yn y system cyfiawnder troseddol

### Dalfeydd yr heddlu a'r llysoedd

IYn nalfeydd yr heddlu yn Lloegr, roedd oedi wrth gynnal asesiadau'r Ddeddf Iechyd Meddwl a mwy o oedi cyn trosglwyddo unigolion i gyfleuster iechyd meddwl yn awgrymu nad yw llwybrau atgyfeirio yn gweithio mor effeithiol ag y dylent, ac mae cael gwelyau mewn lleoedd iechyd diogel pan fo angen yn her enfawr.[44] Mewn rhai heddluoedd, roedd cymorth annigonol gan wasanaethau iechyd meddwl i ddelio â phobl â salwch meddwl ar safle digwyddiad weithiau wedi arwain at eu cadw o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl pan allai opsiynau eraill fod wedi bod ar gael.[45]

Roedd diffyg gwybodaeth am ymyriadau dargyfeirio a chydweithio, sawl asesiad a gynhaliwyd o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, pa mor hir y bu'n rhaid i unigolion dan gadwad aros am asesiad, neu pa mor hir y bu'n rhaid iddynt aros i gael eu trosglwyddo, yn broblem i lawer o'r heddluoedd a arolygwyd. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd i heddluoedd a gwasanaethau iechyd meddwl ddeall pa mor dda y mae unigolion dan gadwad sydd â salwch meddwl yn cael eu trin yn y ddalfa. Gallai methiant i gofnodi neu rannu'r wybodaeth hon yn ddigonol gynyddu'r risg i unigolion dan gadwad, gan na fyddai staff ar shifftiau gwahanol neu o wasanaethau gwahanol yn dod o hyd i'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn diwallu eu hanghenion yn syth a lleihau risgiau..

Fel y nodwyd gan Sylwedyddion Lleyg, mae ansawdd gwael Cofnodion Hebryngwyr Pobl yn atal swyddogion hebrwng rhag llunio asesiadau risg priodol, a all gael effaith andwyol ar y gallu i reoli anghenion gofal iechyd pan fo unigolyn yn cael ei gludo neu'n

44 Archifau dalfeydd – Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi **(justiceinspectorates.gov.uk)**

45 Report on an inspection visit to police custody suites in Greater Manchester – Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi **(justiceinspectorates.gov.uk)**;
Report on an inspection visit to police custody suites in Dorset – Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi **(justiceinspectorates.gov.uk)**;
Report on an unannounced inspection visit to police custody suites in Gloucestershire – Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi **(justiceinspectorates.gov.uk)**

cael ei gadw yn un o ddalfeydd y llysoedd.[46] Mae bylchau mewn cofnodion yn golygu nad oes modd monitro canlyniadau i unigolion dan gadwad na phriodoldeb eu triniaeth yn gynhwysfawr. Mae rhwymedigaeth ar y DU o dan OPCAT i sicrhau bod yr holl wybodaeth sy'n cyfeirio at driniaeth pobl sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid, yn ogystal ag amodau eu cyfnod dan gadwad, ar gael i'r NPM.[47] Os na chaiff gwybodaeth ei chasglu a'i storio'n briodol, mae'n dra annhebygol y gall y wladwriaeth gyflawni'r rhwymedigaeth hon..

Roedd enghreifftiau hefyd o arfer da o safbwynt cydweithio rhwng heddluoedd a gwasanaethau iechyd meddwl partner, gyda hyfforddiant ar faterion iechyd meddwl a chydweithio agos â nyrsys iechyd meddwl yn benodol yn arwain at lai o achosion o gadw o dan Adran 136 o'r Ddeddf Iechyd Meddwl, mwy o unigolion yn cael eu dargyfeirio oddi wrth y ddalfa, ac amrywiaeth o opsiynau cymorth. .[48]

Dros y flwyddyn adrodd, gofynnodd aelodau yn Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Sussex i'r ICVA am y lefelau o olau artiffisial yng nghelloedd dal yr heddlu ac effaith hyn ar y gallu i orffwys, yn enwedig i bobl niwroamrywiol a phobl â phroblemau iechyd meddwl. Yn seiliedig ar hyn ac adroddiadau blaenorol a dderbyniwyd, roedd ICVA yn poeni “that rest periods being disturbed by too bright lighting could possibly constitute a breach of human rights articles”.[49]

O dan y Rheolau Carchar Ewropeaidd, rhaid i olau artiffisial fodloni safonau technegol cydnabyddedig.[50] Mae'r Rheolau Sylfaenol Safonol ar gyfer Trin Carcharorion (Rheolau Nelson Mandela) yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparu golau artiffisial “sufficient for the prisoners to read or work without injury to eyesight”.[51] Gall amlygiad i olau artiffisial uwchlaw'r lefel hon 24 awr y dydd effeithio ar iechyd drwy amharu ar gwsg a rhythmau circadaidd pobl a gall y golau llachar achosi anesmwythder corfforol ac aflonyddwch gweledol.[52] Mae amddifadedd cwsg yn fath

46 Lay Observers annual report 2021-2022 – **Sylwedyddion Lleyg**

47 OPCAT Erthygl20 (b).

48 Report on an inspection visit to police custody suites in Greater Manchester – Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi **(justiceinspectorates.gov.uk)**; RAdroddiad ar ymweliad arolygu dirybudd â dalfeydd yr heddlu yn Heddlu Gogledd Cymru – Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi **(justiceinspectorates.gov.uk)**; Report on an unannounced inspection visit to police custody suites in West Mercia Police – Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi **(justiceinspectorates.gov.uk)**; Report on an unannounced inspection visit to police custody suites in Gloucestershire – Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi **(justiceinspectorates.gov.uk)**; Report on an unannounced inspection visit to police custody suites in Hertfordshire – Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi **(justiceinspectorates.gov.uk)**; Report on an inspection visit to police custody suites in Lincolnshire – Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi **(justiceinspectorates.gov.uk)**

49 Lux lighting in custody: an impact report – Cymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd **(icva.org.uk)**

50 European Prison Rules – Cyngor Ewrop **(coe.int)**

51 Rheolau Sylfaenol Safonol y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Trin Carcharorion – Swyddfa'r Cenhedloedd Unedig ar Gyffuriau a Throseddau **(unodc.org)**

52 The neglected pollutants: the effects of artificial light and noise on human health – Tŷ'r Arglwyddi **(parliament.uk)**

o artaith seicolegol.[53] Er bod aflonyddwch cwsg a diffyg cwsg yn nalfeydd yr heddlu yn y DU yn digwydd o ganlyniad i lefelau uchel o olau artiffisial, mae'r posibilrwydd o effeithiau niweidiol ar unigolion yn y ddalfa yn bryderus. Mae Rheol 43 o Reolau Nelson Mandela yn gwahardd cyfyngiadau neu gosbau disgyblu sy'n golygu gosod carcharor mewn cell dywyll neu gell sydd wedi'i goleuo'n gyson.

Gofynnodd ICVA am adolygiad o lefelau goleuadau (lux) mewn celloedd gan Grŵp Cenedlaethol Ystadau'r Heddlu. Yn sgil yr adolygiad hwn, diwygiwyd y Canllaw Cynllunio Dalfeydd i ostwng lefelau goleuadau 33% ar gyfer safleoedd newydd a gwaith adnewyddu ar raddfa fawr ledled Cymru a Lloegr. Caiff gwerthusiad o effaith ei gynnal yn ystod blwyddyn adrodd 2023-24.

Yn yr Alban, lansiodd HMICS adolygiad thematig o blismona iechyd meddwl[54] ym mis Ionawr 2023. Y nod yw asesu cyflwr, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau plismona Police Scotland mewn perthynas ag iechyd meddwl. Mewn partneriaeth â Healthcare Improvement Scotland, cyhoeddwyd adolygiad sylfaenol cenedlaethol ehangach o ddarpariaeth gofal iechyd yn nalfeydd yr heddlu yn yr Alban ym mis Ionawr 2023.[55] Canfuwyd amrywiadau mawr o ran mynediad at ofal iechyd yn nalfeydd yr heddlu ledled yr Alban gyda mynediad anghyson at asesiadau iechyd meddwl eilaidd, a nodwyd bod angen i fyrddau'r GIG gasglu tystiolaeth gadarnach o anghenion y boblogaeth leol er mwyn helpu i ddylunio a chyflenwi'r gofal iechyd a ddarperir mewn dalfeydd. Nododd yr adolygiad hefyd achosion o arfer da wrth gyflenwi gofal iechyd i bobl yn nalfeydd yr heddlu, a chydweithio ar lefel leol a chenedlaethol, gan awgrymu ffyrdd ymlaen er mwyn darparu gofal iechyd parhaus mewn dalfeydd. Er bod rhai canfyddiadau yn bryderus, yn y pen draw, bydd yr haen newydd o graffu a ddaw yn sgil arolygiadau ar y cyd â Healthcare Improvement Scotland yn tynnu sylw at feysydd i'w datblygu ymhellach ac yn gwella gofal iechyd i'r rhai a gaiff eu cadw yn nalfeydd yr heddlu. Nododd y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn yr Alban fod prinder lleoedd diogel amgen addas i blant wedi cyfrannu at amgylchiadau eithriadol a arweiniodd at ddal cyfanswm o 4,261 o blant yn y ddalfa dros y flwyddyn adrodd, sy'n gynnydd o gymharu â'r ddwy flynedd nesaf.[56] Nododd y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn yr Alban fod canran y bobl a ddatganodd fod ganddynt fregusrwydd iechyd meddwl yn y ddalfa wedi cynyddu i 42% – 41,761 o bobl.

## ICarchardai

Yn yr Alban, roedd 13 o'r 44 o farwolaethau mewn carchardai yn 2022 wedi digwydd o ganlyniad i hunan-niweidio bwriadol.[57] Cyfwelodd HMIPS â llawer o garcharorion a oedd wedi hunan-niweidio pan roeddent wedi cael eu harwahanu, pan roedd yr

53 Befogging reason, undermining will: Understanding the prohibition of sleep deprivation as torture and ill-treatment in international law – Torture journal **(tidsskrift.dk)**

54 Policing mental health in Scotland: a thematic review - Terms of reference – Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban **(hmics.scot)**

55 Joint national baseline review of healthcare provision within police custody centres in Scotland – Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban**(hmics.scot)**

56 Independent Custody Visiting Scheme Scotland annual report 2022-23 – S Awdurdod Heddlu'r Alban **(spa.police.uk)**

57 Marwolaethau yn y ddalfa yn ôl achos marwolaeth - Marwolaethau mewn carchardai yn yr Alban 2012-2022 – Llywodraeth yr Alban **(www.gov.scot)**

amodau gwael a'r diffyg ysgogiad yn golygu bod perygl y gallai eu hiechyd meddwl ddirywio'n sylweddol.[58] Nododd HMIPS fod pwysau sylweddol a pharhaus ar staff gofal iechyd yn cael effaith niweidiol ar ofal cleifion, er gwaethaf ymdrechion sylweddol o dan amgylchiadau anodd gan staff y carchar a Phartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithas Gogledd Swydd Lanarkshire i gefnogi anghenion gofal iechyd yng Ngharchar Ei Fawrhydi Shotts. Yng Ngharchar Ei Fawrhydi Addiewell, dywedodd 75% o'r carcharorion ei bod yn eithaf anodd neu'n anodd iawn cael gofal iechyd meddwl.

Cyhoeddodd MWCS adroddiad ar ymweliad ar thema ym mis Ebrill 2022 o dan y teitl 'Mental health support in Scotland's prisons 2021: under-served and under-resourced'. Mae'r adroddiad cynhwysfawr hwn yn pwysleisio "prison is not the place for seriously and acutely mentally ill prisoners"..[59] Er gwaethaf staff ymrwymedig a rhai meysydd o arfer da, nid oedd negeseuon allweddol o 2011 wedi cael eu rhoi ar waith. Roedd dibyniaeth ar niferoedd bach o staff arbenigol, diffyg dull strategol cyffredinol, diffyg adnoddau iechyd meddwl a diffyg ystyriaeth o gynllunio rhagweithiol ar ôl y pandemig neu adnoddau ychwanegol i gefnogi carcharorion a staff yn bryderon parhaus. Roedd cynlluniau gofal ac adolygiadau dynamig yn seiliedig ar anghenion carcharorion unigol yn ddiffygiol – pryder penodol i'r rhai a gaiff eu gosod mewn uned arwahanu..

Yng N**ghymru a Lloegr,** yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Rhagfyr 2022, gwelwyd lleihad yn nifer yr achosion o hunan-niweidio fesul 1,000 o garcharorion gwrywaidd o gymharu â'r flwyddyn galendr flaenorol.[60] Fodd bynnag, cofnodwyd 78 o farwolaethau drwy hunanladdiad yn ystod y 12 mis hyd at fis Mawrth 2023, sy'n gyson â'r 77 a gofnodwyd y flwyddyn flaenorol. Nodwyd gwendidau o ran mesurau i atal hunanladdiad a hunan-niweidio, gan gynnwys goruchwyliaeth wael a diffyg gwaith cynllunio i wella canlyniadau a nodwyd nad oedd digon o waith dadansoddi data yn cael ei wneud mewn rhai carchardai i ddeall prif achosion hunan-niweidio. Mewn sefydliadau eraill, nid oedd ymchwiliadau systematig yn cael eu cynnal i ddigwyddiadau difrifol er mwyn dysgu gwersi ohonynt. Mae gwaith dadansoddi a dysgu annigonol yn atal sefydliadau rhag diwygio arferion a nodi newidiadau hirdymor er mwyn amddiffyn hawl carcharorion i fywyd. Mae gan y wladwriaeth rwymedigaeth gadarnhaol i amddiffyn yr hawl i fywyd – nid yn unig y mae'n rhaid iddi ymatal rhag cymryd bywyd, mae'n rhaid iddi hefyd gymryd camau priodol i ddiogelu bywydau'r rhai o fewn ei hawdurdodaeth drwy fesurau gweithredol ataliol. .[61]

Nododd arolygiad o Garchar Maghaberry yng Ngogledd Iwerddon, a gynhaliwyd ar y cyd gan yr RQIA, y CJI a'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant fod saith marwolaeth hunanachosedig wedi digwydd ers yr arolygiad diwethaf yn 2018, ond nad oedd digon o dystiolaeth bod y sefydliad wedi

58 A thematic review of segregation in Scottish prisons – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban **(prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

59 Mental health support in Scotland's prisons 2021: under-served and under-resourced – Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban **(mwcsot.org.uk)**

60 Annual report 2022-23 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

61 Guide on Article 2: right to life – Llys Hawliau Dynol Ewrop **(coe.int)**

dysgu o bob marwolaeth.[62] Roedd cyfraddau hunan-niweidio yn cynyddu ac roedd y trefniadau i oruchwylio'r ffordd y caiff carcharorion mewn creisis, gan gynnwys y rhai ar Unedau Gofal a Goruchwyliaeth, eu rheoli yn wael iawn. Dywedodd y CJI "leaders had not done enough to understand this rise and there was no clear plan to address it".[63] Cafwyd ymateb annigonol i argymhellion a wnaed yn dilyn ymchwiliad i farwolaethau yn y ddalfa ac ni chyflawnwyd y tri phrif argymhelliad yn y maes hwn. Roedd mynediad at wasanaethau trin seicolegol yn bryder allweddol yn ystod yr arolygiad, ond dywedodd 33% o'r bobl yn y carchar fod ansawdd cyffredinol gwasanaethau iechyd yn dda iawn neu'n eithaf da a dywedodd 23% eu bod wedi cael help gyda'u problem iechyd meddwl.[64] Dywedodd hanner y carcharorion eu bod yn treulio llai na dwy awr allan o'u celloedd ar ddiwrnod arferol yn ystod yr wythnos.

Nododd carcharorion fod treulio cyfnodau hir dan glo mewn cell, a'r rhwystredigaeth a'r pryder sy'n dod yn sgil hyn, yn ogystal â diffyg ymyriadau a gweithgarwch pwrpasol yn cyfrannu at hunan-niweidio. Roedd cyfundrefn wael yn amharu ar ansawdd y cydberthnasau rhwng staff a charcharorion hefyd. Ychydig iawn o waith â gweithwyr allweddol a oedd yn digwydd mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr. Dim ond mewn dau garchar roedd trefniadau gweithwyr allweddol effeithiol ar waith ac mewn mannau eraill, lle roedd sesiynau gweithwyr allweddol wedi cael eu hailgyflwyno o gwbl, roedd y sesiynau'n ymdrin â gwiriadau lles sylfaenol yn hytrach na chanolbwyntio'n ystyrlon ar gynnydd a chyflawni targedau cynlluniau dedfrydu.[65] Roedd anawsterau o ran recriwtio, hyfforddi a chadw staff profiadol yn gwaethygu'r amodau hyn Roedd oedi parhaus cyn cael gwasanaethau iechyd meddwl ac weithiau orddibyniaeth ar gymorth fferyllol, yn hytrach na therapiwtig, yn atal cleifion rhag mynd i'r afael â thrawma sylfaenol, gan danseilio eu canlyniadau iechyd. Cofnododd pob arolygiaeth carchardai a chorff monitro bryderon difrifol bod carcharorion â salwch meddwl yn aros am gyfnodau hir i gael eu trosglwyddo i gyfleusterau iechyd meddwl arbenigol i gleifion mewnol er mwyn cael triniaeth o dan Ddeddfau Iechyd Meddwl.

> **"All too often, those in mental health crisis were held in conditions that were clearly detrimental to their health and well-being, usually in segregation or inpatient units."[66]**

Roedd peth mynediad gwydn a gweithredol i garcharorion yr oedd angen ymyriad brys arnynt, yn ogystal â ffocws da ar ddiwrnodau cyntaf carcharorion dan glo, gwaith effeithiol i gydlynu trefniadau rhyddhau, ac roedd camau i gydlynu cymorth ar ôl i garcharorion gael eu rhyddhau yn cael eu rheoli'n dda ar y cyfan.

62 An unannounced inspection of Maghaberry Prison 20 September-6 October 2022 – Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon **(cjini.org)**

63 An unannounced inspection of Maghaberry Prison 20 September-6 October 2022 – Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon **(cjini.org)**

64 An unannounced inspection of Maghaberry Prison 20 September-6 October 2022 – Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon **(cjini.org)**

65 HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales annual report 2022-23 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

66 HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales annual report 2022-23 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

Nododd yr IMB ganlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd gan uned ddynodedig i ddynion ag anghenion iechyd meddwl cymhleth yng Ngharchar Ei Fawrhydi Hewell.[67] Serch hynny, nododd yr IMB hefyd fod yn rhaid aros am gyfnodau annerbyniol o hir i drosglwyddo i unedau seiciatrig arbenigol allanol.

Yn achos menywod mewn carchardai yng Nghymru a Lloegr, bu cynnydd mewn cyfraddau hunan-niweidio yn ystod y flwyddyn adrodd ac nid oedd digon o ofal gweithredol ar gael i atal creisis. Roedd defnydd isel gan staff o gamerâu a wisgir ar y corff yn golygu ei bod yn anodd gweld a oedd y defnydd o rym i atal hunan-niweidio yn gymesur neu'n briodol i fenywod mewn creisis. Roedd lefel uchel o anghenion iechyd meddwl ac roedd rhai carchardai yn dal menywod difrifol sâl a ddylai fod wedi bod yn yr ysbyty. Er bod gofal iechyd cyffredinol yn dda ar y cyfan, roedd prinder staff yn amharu weithiau ar y ddarpariaeth. Roedd y gwasanaethau i fenywod ag anhwylder personoliaeth ac anghenion hynod o gymhleth yn dda ond, yn yr un modd â meysydd eraill, roedd prinder staff yn amharu ar y gallu i gynnig darpariaeth gyson. Fel y nodwyd yn barhaus ond eto heb unrhyw ddatrysiad, parhaodd HMIP i weld menywod a oedd wedi cael eu remandio a'u hadalw, menywod a oedd yn cael eu cadw yn y carchar er eu diogelwch eu hunain a menywod a oedd yn y carchar fel "lle diogel" a oedd wedi cael eu remandio neu eu hadalw i'r ddalfa, tra'u bod yn aros am asesiad o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl – y gallai llawer ohonynt fod wedi cael gofal mewn lleoliadau cymunedol. Er enghraifft, arsylwodd yr IMB yng Ngharchar Ei Fawrhydi/ Sefydliad Troseddwyr Ifanc Eastwood Park fod pedair menyw â salwch meddwl difrifol yn cael eu dal mewn uned anaddas. Cafodd un fenyw a oedd wedi cael anaf i'r ymennydd ei harwahanu am 1,484 o ddiwrnodau'n olynol cyn iddi gael ei throsglwyddo i ysbyty diogelwch canolig.[68]

IRoedd gwasanaethau iechyd meddwl annigonol yn y gymuned i ddiwallu lefelau uchel o anghenion yn golygu bod rhybuddion cynnar yn cael eu colli ac o ganlyniad, roedd menywod â phroblemau iechyd meddwl cymhleth a menywod â salwch meddwl difrifol yn cael eu hanfon i'r carchar. Canfu'r IMB fod hyn yn broblem benodol â gwasanaethau yng Nghymru, o gymharu ag ardaloedd eraill.[69]

Mae ynysu cymdeithasol, diffyg gweithgarwch ystyrlon ac arwahanu parhaus sy'n gyfystyr â charchariad unigol yn cyfrannu at driniaeth neu gosbau annynol ac israddiol.[70] Yn ôl y CPT, mae'r term "carchariad unigol" neu "solitary confinement" yn Saesneg yn golygu unrhyw achos lle gorchmynnir bod carcharor yn cael ei gadw ar wahân oddi wrth garcharorion eraill – er enghraifft, o ganlyniad i benderfyniad llys, fel cosb ddisgyblu a gyflwynir o fewn y system garchardai, fel mesur gweinyddol ataliol neu er mwyn amddiffyn y carcharor dan sylw.[71]

67 Annual report of the Independent Monitoring Board at HMP Hewell 2021/22 – **IByrddau Monitro Annibynnol**

68 Annual report of the Independent Monitoring Board at HMP/YOI Eastwood Park for reporting year 1 November 2021-31 October 2022 – **Byrddau Monitro Annibynnol**

69 SYmchwiliad Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol y Senedd i brofiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol – Byrddau Monitro Annibynnol **(imb.org.uk)**

70 The right to be free from torture or cruel, inhuman or degrading treatment or punishment: for ombudsman schemes – Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol **(equalityhumanrights.com)**

71 Solitary confinement of prisoners – Cyngor Ewrop **(coe.int)**

Mae datganiad Istanbul ar garchariad unigol yn nodi, mewn llawer o awdurdodaethau, "solitary confinement is also used as a substitute for proper medical or psychiatric care for mentally disordered individuals". [72]

Nododd adolygiad y CJI o weithrediad trefniadau mechnïaeth a remand yng Ngogledd Iwerddon fod 58% o'r menywod ar remand yn 2018 yn y ddalfa o ganlyniad i broblemau iechyd meddwl, problemau camddefnyddio alcohol, digartrefedd neu am eu bod wedi ceisio lladd eu hunain.[73] Yn nalfeydd y llysoedd, canfu'r CJI fod gan y staff ddealltwriaeth dda o anghenion unigol penodol grwpiau, fel menywod sy'n feichiog neu sy'n bwydo ar y fron. Roedd digon o staff a darpariaeth i ymateb i anghenion lles menywod yn y ddalfa, a oedd yn cael eu cludo a'u dal ar wahân oddi wrth ddynion.[74]

Roedd amseroedd aros am driniaeth iechyd meddwl yn effeithio'n fawr ar fenywod yn yr Alban, gyda'r rhai yr oedd angen lefel uchel o driniaeth cleifion mewnol diogel arnynt yn gorfod trosglwyddo i Loegr.[75] Agorodd dwy Uned Ddal Gymunedol i fenywod eleni, a'r gobaith yw y bydd y lleoliadau pwrpasol hyn sy'n seiliedig ar egwyddorion ystyriol o drawma yn darparu trywydd arfer gorau ar gyfer menywod mewn dalfeydd ledled y DU.

## Lleoliadau plant

Ar gyfer plant mewn dalfeydd yn yr Alban, amlygodd cyflwyniad Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban i Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn ym mis Rhagfyr 2022 bryderon am amodau mewn lleoedd cadw, yn enwedig yn ystod y pandemig. Roedd y pryderon hyn yn cynnwys mynediad annigonol at weithgarwch corfforol, addysg a chyfleoedd hyfforddi, y ffaith eu bod yn treulio cyfnod anghymesur o hir yn eu celloedd, a'r cyfraddau uchel o salwch meddwl.[76] Cyfeiriodd pobl ifanc at unigrwydd a diflastod fel problemau allweddol a oedd yn effeithio ar eu llesiant.

Fodd bynnag, yng Nghanolfan Cyfiawnder Ieuenctid Woodlands yng Ngogledd Iwerddon, roedd safon gyffredinol gwasanaethau iechyd yn dda ac roeddent yn canolbwyntio ar y plentyn, gydag atgyfeiriadau priodol yn cael eu gwneud pan fo plant yn y ddalfa ac ar adeg eu rhyddhau, ac roedd Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed mewngymorth ar gael a oedd yn therapiwtig ac yn ymatebol.[77] Roedd gan lawer o'r bobl ifanc yn Woodlands broblemau iechyd meddwl y gellid ystyried eu bod yn anableddau, gan gynnwys Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd, Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth, ac amhariadau gwybyddol neu brosesu. Roedd pob plentyn yn cael ei asesu gan staff gofal iechyd ar ôl cyrraedd y ganolfan ac roedd anghenion y plant yn cael eu hystyried yn ystod asesiadau cychwynnol. Nid oedd pob plentyn yn Woodlands yn cael ei atgyfeirio nac yn aros yno yn

72 Istanbul statement on the use and effects of solitary confinement (2007)

73 The operation of bail and remand in Northern Ireland – Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon **(cjini.org)**

74 Court custody: The detention of persons in the custody of the court in Northern Ireland – CArolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon **(cjini.org)**

75 HM Chief Inspector's annual report 2022-23 – HArolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban **(prisonsinspectoratescotland.gov.uk)**

76 Llythyr gan Gadeirydd Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban **(scottishhumanrights.com)**

77 An unannounced inspection of Woodlands Juvenile Justice Centre – Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon **(cjini.org)**

ddigon hir i weld y tîm mewngymorth. Roedd argymhellion a wnaed gan y CJI yn ystod yr arolygiad blaenorol wedi cael eu bodloni i raddau helaeth a oedd yn golygu bod tîm y Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed yn llawer mwy integredig. Roedd tystiolaeth mewn ffeiliau achos i ddangos bod plant yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau am eu gofal a'u triniaeth. Roedd y bobl hynny a gymerodd ran yn yr arolygiad wedi siarad yn gadarnhaol iawn am eu hymgysylltiad a'r cymorth a ddarparwyd, ond nid oedd proses ffurfiol ar waith i gasglu profiad defnyddwyr gwasanaeth.

Yng Nghymru a Lloegr, roedd cymorth cymysg i atal hunanladdiad a hunan-niweidio ymhlith plant yn y ddalfa. Roedd gwasanaethau iechyd yn rhoi gwasanaeth da i blant yn gyffredinol, ond roedd mynediad at amrywiaeth briodol o driniaethau iechyd meddwl i blant er mwyn mynd i'r afael â'u trawma emosiynol a seicolegol yn ardderchog yng Ngharchar Ei Fawrhydi/Sefydliad Troseddwyr Ifanc Parc, er iddo gael ei godi fel pryder allweddol yn 2019.[78] Roedd Comisiynydd Plant Lloegr wedi cysylltu cyfraddau cadw gwael ymhlith staff â lefelau uchel o drais mewn Sefydliadau Troseddwyr Ifanc a chyfyngiadau ar gyfleoedd i gael addysg a hyfforddiant ystyrlon a allai fod wedi trawsnewid bywydau, ond roedd lleoliadau llai weithiau yn darparu amgylcheddau diogel a thawel gyda gweithgareddau buddiol.[79] Mae un Ganolfan Hyfforddi Ddiogel ar agor yn Lloegr ar hyn o bryd: Oakhill. Mae lle yn Oakhill ar gyfer hyd at 80 o blant rhwng 12 a 17 oed sydd wedi cael eu remandio yn y ddalfa neu sy'n bwrw dedfryd yno. Nid yw Oakhill yn darparu gofal digon da i blant fel y dangosir yn yr adroddiadau a luniwyd ar y cyd gan arolygiaethau, ac nid yw'r amgylchedd yn diwallu anghenion plant sy'n agored i niwed.[80] Mae'r ymrwymiad ym maniffesto'r llywodraeth i sefydlu academïau 16-19 oed diogel yn ddeuol fel cartrefi diogel i blant ac academïau 16-19 oed yn cael ei roi ar waith.[81]

IYng Ngogledd Iwerddon, cwblhaodd yr RQIA ddau arolygiad o'r gwasanaeth diogel rhanbarthol i blant. Canfu'r arolygiad gynnydd parhaus yng nghymhlethdod anghenion plant a phobl ifanc yr oedd angen iddynt gael eu derbyn i'r gwasanaeth. Arweiniodd hyn at gynnydd yn y defnydd o arferion cyfyngol, er mwyn cefnogi diogelwch y plant a'r bobl ifanc unigol a'r staff. Mae'r RQIA wedi codi pryderon am ddifrifoldeb cyflyrau'r plant a'r bobl ifanc a'r adnoddau sydd ar gael yn y ganolfan ddiogel ranbarthol. Rydym yn poeni y gall fod cydberthynas rhwng plant yn aros mewn lleoliad diogel ac yn destun cyfyngiadau am gyfnod hwy nag sydd ei angen. Mae'r RQIA wedi nodi bod angen gwaith cydlynu rhanbarthol er mwyn dod i gonsensws ar brosesau ar gyfer derbyn plant i'r ganolfan ddiogel ranbarthol a'u rhyddhau oddi yno. [82]

78 HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales annual report 2022-23 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr**(justiceinspectorates.gov.uk)**

79 Family contact in youth custody – Comisiynydd Plant Lloegr r **(childrenscommissioner.gov.uk)**

80 Oakhill secure training centre: annual inspection – Ofsted **(ofsted.gov.uk)**

81 Secure schools: Police, Crime, Sentencing and Courts Act 2022 factsheet Oakhill secure training centre: annual inspection – GOV.UK **(www.gov.uk)**

82 RQIA annual report and accounts 1 April 2022-31 March 2023 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**

## Lleoedd cadw mewnfudwyr

TRoedd pryder ym mhob safle ynghylch diffyg mynediad at wasanaethau iechyd meddwl, a'r effeithiau andwyol yr oedd cael eu cadw dan gadwad yn eu cael ar rai unigolion. Cydnabu'r Swyddfa Gartref fod mwy na thraean o'r unigolion dan gadwad yn Brook House yn agored i niwed o dan ei pholisi "oedolion mewn perygl". Aseswyd bod tair o'r 25 o fenywod yn Derwentside yn ystod arolygiad HMIP yn agored i'r niwed mwyaf difrifol, sy'n golygu bod parhau i'w cadw dan glo yn niweidiol yn ei hanfod i'w llesiant.[83] O dan Reol 35 o Reolau Canolfannau Cadw 2001, mae'n rhaid i staff meddygol mewn canolfannau cadw mewnfudwyr hysbysu'r Swyddfa Gartref os oes ganddynt bryderon bod parhau i ddal unigolyn dan gadwad yn debygol o gael effaith niweidiol ar ei iechyd. Er gwaethaf hyn, dangosodd gwaith arolygu a monitro fod pobl yn parhau i gael eu cadw ym mhob safle yn ymarferol hyd yn oed ar ôl i bryderon gael eu codi am eu ffitrwydd i gael eu cadw. Gallai parhau i ddal unigolion dan gadwad yn groes i arweiniad gweithwyr meddygol proffesiynol dorri'r trothwy ar gyfer camdriniaeth. [84]

Roedd asesiadau iechyd cychwynnol a pharhaus yn Western Jet Foil yn cael eu tanseilio am eu bod yn aml yn cael eu cynnal mewn mannau cymunedol heb ddefnyddio dehonglwyr fel mater o drefn, a oedd yn ei gwneud yn anodd nodi anghenion iechyd a thriniaeth.[85] Nodwyd prosesau gwael ar gyfer cofnodi gwybodaeth, gan gynnwys ynghylch pa mor agored i niwed roedd unigolyn a'r defnydd o rym. Cynhaliodd HMIP arolygiad arall o Gyfleuster Cadw Byrdymor Manston ym mis Chwefror 2023 ar ôl nodi bod niferoedd uchel o bobl yn cael eu cadw yno am gyfnodau hir a brigiadau o glefydau heintus. Cyhoeddwyd yr adroddiad yn ystod blwyddyn galendr 2023-24 ond mae'n cyfeirio at welliannau cyffredinol ar y safleoedd ochr yn ochr â phryder difrifol am arweinyddiaeth yn Manston. Roedd trefniadau llywodraethu annigonol wedi arwain at fylchau mewn prosesau diogelu, methiant i wneud defnydd digonol o wasanaethau dehongli, dim goruchwyliaeth briodol a data annigonol ar y defnydd o rym neu ddigwyddiadau treisgar, a methiant posibl i nodi neu ymdrin â materion lles.[86]

Mewn cyfleusterau cadw dros dro yng Ngogledd Iwerddon, nododd adroddiad gan yr IMB a gyhoeddwyd ym mis Awst 2022 fod y nifer isel iawn o ffenestri y gellir eu hagor yn golygu nad oedd aer yn llifo i mewn ac allan o'r ystafelloedd cadw na'r cyfleuster cadw preswyl byrdymor.[87] Roedd hyn yn bryder mawr o ran awyru yn ystod ac ar ôl pandemig COVID-19. .

Gan fyfyrio ar ganfyddiadau tebyg ledled y DU, mae Grŵp Gorchwyl a Gorffen yr NPM ar iechyd meddwl mewn dalfeydd wedi

---

83 HM Chief Inspector of Prisons for England and Wales annual report 2022-23 – Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr **(justiceinspectorates.gov.uk)**

84 The Detention Centre Rules 2001 **(legislation.gov.uk)**

85 Report to the United Kingdom government on the ad hoc visit to United Kingdom carried out by the European Committee for the Prevention of Torture and Inhuman or Degrading Treatment or Punishment (CPT) from 25 to 28 November 2022 – Cyngor Ewrop **(coe.int)**

86 Report on an unannounced inspection of short-term holding facilities at Western Jet Foil, Manston and Kent Intake Unit, by HM Chief Inspector of Prisons, 30 January-17 February 2023 – **Arolygydd Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr (justiceinspectorates.gov.uk)**

87 Scotland and Northern Ireland Short-Term Holding Facilities 2021-22 annual report – – Byrddau Monitro Annibynnol **(imb.org.uk)**

canfod bwlch difrifol mewn adroddiadau, sy'n cuddio maint y broblem yn ogystal â'r mannau lle gall prosesau trosglwyddo a darparu gwasanaethau wella. Mae myfyrdodau cynnar yn dangos bod angen mecanwaith monitro i nodi beth sy'n achosi oedi wrth drosglwyddo pobl o garchardai i ysbytai a set ddata sylfaenol ar iechyd meddwl..

## Lleoedd cadw mewn lleoliadau iechyd meddwl a lles

Mae gweithdrefnau amrywiol ar waith yn awdurdodaethau gwahanol y DU i amddifadu person o'i ryddid yn gyfreithlon mewn ysbyty neu leoliad gofal er mwyn ei gadw yn ddiogel, os nad oes ganddo'r galluedd i gydsynio i'w ofal neu'i driniaeth a lle bo gwneud hynny er ei les pennaf ac yn angenrheidiol ac yn gymesur. O dan Ddeddf Hawliau Dynol 1998, sy'n gymwys i'r DU gyfan, gall person ond cael ei amddifadu o'i ryddid o dan amgylchiadau penodol ac yn unol â gweithdrefn a ragnodir mewn cyfraith.[88]

### Cymru a Lloegr

Yng Nghymru a Lloegr, gall person gael ei gadw o dan adrannau perthnasol o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, yn unol ag asesiad gan (fel arfer) weithiwr iechyd meddwl cymeradwy, meddyg sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol a meddyg arall.[89] O dan y Ddeddf, caiff ysbytai gadw a thrin pobl sydd â salwch meddwl ac y mae angen eu hamddiffyn er eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain, neu ddiogelwch pobl eraill. Mae'r Ddeddf Iechyd Meddwl hefyd yn darparu pwerau ar gyfer gorchmynion triniaeth gymunedol a gwarcheidiaeth.[90] Mae adroddiad diwethaf y CQC ar y Ddeddf Iechyd Meddwl yn pwysleisio bod angen gweithredu er mwyn dileu anghydraddoldebau, yn enwedig lefelau cadw a defnydd anghymesur o uchel o orchmynion triniaeth gymunedol ar gyfer pobl ddu a phobl o rai grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys y rhai o ardaloedd difreintiedig.[91] Mae data gan wasanaethau iechyd meddwl yn awgrymu bod gorchmynion triniaeth gymunedol yn cael eu defnyddio dros 11 o weithiau'n fwy ar gyfer pobl ddu na phobl wyn. .[92]

Roedd problemau â'r gweithlu a phrinder staff, yn enwedig diffyg nyrsys iechyd meddwl cymwysedig, yn amharu ar ansawdd y gofal a ddarparwyd i bobl a oedd wedi cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Cyfleusterau heb sgiliau na staff digonol oedd yr her fwyaf o hyd i'r sector iechyd meddwl ac roedd y problemau hyn yn effeithio ar fynediad cleifion at ofal therapiwtig, yn golygu eu bod yn cyfrannu llai at benderfyniadau am eu gofal, ac yn arwain at ganslo gweithgareddau ar wardiau a chyfnodau absenoldeb.[93] Roedd yr anawsterau hyn yn peri i gleifion ymddwyn yn fwy ymosodol ac yn amharu ar ddiogelwch cleifion a staff, oherwydd roedd gallu'r staff i ymateb i ddigwyddiadau yn cael ei beryglu gan y pwysau parhaus

88 Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, 'Erthygl 5, yng nghyfraith y DU drwy rinwedd Deddf Hawliau Dynol 1998', 9 Tachwedd 1998 **(legislation.gov.uk)**

89 What is the Mental Health Act? – Rethink Mental Illness **(rethink.org)**

90 Monitoring the Mental Health Act in 2021 to 2022 – Comisiwn Ansawdd Gofal **(cqc.org.uk)**

91 Monitoring the Mental Health Act in 2021 to 2022 – Comisiwn Ansawdd Gofal **(cqc.org.uk)**

92 Mental Health Act community treatments orders (CTO): focused visits report – Comisiwn Ansawdd Gofal **(cqc.org.uk)**

93 Monitoring the Mental Health Act in 2021 to 2022 – Comisiwn Ansawdd Gofal **(cqc.org.uk)**

sydd arnynt, lle mae eu lefelau cyfrifoldeb yn aml yn uwch na'r cymwysterau sydd ganddynt. Mae'r CQC yn pryderu'n gynyddol am gyflwr ffisegol wardiau ac amgylcheddau cleifion mewnol, y mae angen diweddaru ac atgyweirio llawer ohonynt ar frys. Mae hyn yn effeithio ar forâl cleifion a staff ac yn creu anawsterau fel methu â bwyta gyda'i gilydd a diffyg mannau y gellir eu cloi. [94]

Drwy gydol y flwyddyn, canfu'r CQC fod bylchau mewn gofal cymunedol yn rhoi mwy o bwysau ar wasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol, y mae llawer ohonynt yn ei chael yn anodd darparu lleoedd priodol ac yn wynebu oedi o ran derbyn, trosglwyddo a rhyddhau cleifion.[95] Dangosodd arolwg o brofiadau pobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd cymunedol bod y profiadau hynny'n wael o hyd ac mai ardaloedd â'r canlyniadau hanesyddol gwaethaf a gafodd y canlyniadau isaf eto yn 2022.[96] Mae angen gwneud mwy i wella cymorth yn y gymuned a sicrhau bod mwy o welyau cleifion mewnol ar gael. Roedd hon yn broblem benodol i blant a phobl ifanc. Arweiniodd prinder gwelyau at gynnydd o 32% yn nifer y rhai dan 18 oed a gafodd eu derbyn i wardiau seiciatrig oedolion yn 2021-22 o gymharu â 2020-21..

Yn Lloegr, roedd nifer y plant a dderbyniwyd i wardiau iechyd meddwl cleifion mewnol a nifer y plant a gadwyd o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl wedi parhau i ostwng.[97] Fodd bynnag, daeth Comisiynydd Plant Lloegr i'r casgliad y byddai modd osgoi derbyn plant mewn creisis i wardiau cleifion mewnol a'u cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl pe bai ymyriadau a chymorth cymunedol ar gael yn gynt.[98] Mae'r Comisiynydd Plant wedi galw am wasanaethau gwell i blant ag anawsterau iechyd meddwl ar gam cynnar a chymorth gwell i deuluoedd.[99]

Mynegodd y Comisiynydd bryderon hefyd am blant a oedd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn lleoliadau eraill heblaw am ysbytai a oedd, i bob pwrpas, allan o'r golwg ac yn anweladwy i ystadegau. Awgryma ei gwaith ymchwil fod dros ddeg gwaith yn fwy o blant wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn y ffordd hon yn 2023 o gymharu â 2017-18. [100]

**Mae Trefniadau Diogelu wrth Amddifadu o Ryddid (DoLS)** yn ddiwygiad i Ddeddf Galluedd Meddyliol 2005, sy'n darparu diogelwch ychwanegol os bydd cyfyngiadau neu ataliadau yn amddifadu person o'i ryddid mewn cartref gofal neu ysbyty. Mewn lleoliadau eraill, gall y Llys Gwarchod awdurdodi bod person yn cael ei amddifadu o'i ryddid. [101]

94 Monitoring the Mental Health Act in 2021 to 2022 – Comisiwn Ansawdd Gofal **(cqc.org.uk)**
95 Monitoring the Mental Health Act in 2021 to 2022 – CComisiwn Ansawdd Gofal **(cqc.org.uk)**
96 Community mental health survey 2022 – Comisiwn Ansawdd Gofal **(cqc.org.uk)**
97 Children's mental health services 2021-22 – Comisiynydd Plant Lloegr **(childrenscommissioner.gov.uk)**
98 Children's mental health services 2021-22 – Comisiynydd Plant Lloegr **(childrenscommissioner.gov.uk)**
99 Children's mental health services 2021-22 – Comisiynydd Plant Lloegr r **(childrenscommissioner.gov.uk)**
100 Children's mental health services 2021-22 – CComisiynydd Plant Lloegr **(childrenscommissioner.gov.uk)**
101 Deprivation of Liberty Safeguards (DoLS) at a glance – Y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth **(scie.org.uk)**

Yn Lloegr, nodwyd bod diwylliannau caeedig ac achosion posibl o dorri hawliau dynol yn risg mewn ystod eang o leoliadau iechyd a gofal cymdeithasol. Canfu'r CQC risg uwch mewn gwasanaethau i bobl awtistig a phobl ag anabledd dysgu. Yn ei adroddiad 'State of care' yn 2021-22, tynnodd y CQC sylw at y ffaith bod ymweliadau â'r gwasanaethau hyn wedi'u cyfyngu o hyd drwy gydol 2022 yn dilyn effaith y pandemig a bod hyn wedi cael effaith ddwys ar y bobl a oedd yn byw ynddynt. Dim ond pedwar o'r 17 o argymhellion ar gyfer newid a gyhoeddwyd gan y CQC yn adroddiad 'Out of sight' a oedd wedi cael eu bodloni'n rhannol. Nid oedd 13 ohonynt wedi cael eu bodloni o gwbl.[102] Nid oedd rhai pobl a oedd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn ysbytai wedi cael adolygiadau annibynnol o ansawdd da a heb gydnabyddiaeth o dan y diffiniad o arwahanu hirdymor, roedd rhwystrau pellach i waith monitro a chraffu digonol. Gan adleisio ei ganfyddiadau o'r flwyddyn flaenorol, nododd y CQC fod gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn orlawn o hyd yn Lloegr, gyda phrinder staff yn effeithio ar bob un ohonynt, wrth i staff symud i sectorau lle roedd llai o bwysau arnynt a chyflogau uwch.[103] Roedd y CQC yn poeni bod problemau parhaus â phroses DoLS yn arwain at risg bod pobl yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon, gyda chleifion yn cael eu gadael o bosibl heb drefniadau diogelu, hawliau na mesurau amddiffyn.[104] Cododd gweithgareddau monitro ac asesu'r CQC bryderon bod cynnydd mewn arferion cyfyngol mewn achosion lle na wnaed cais am DoLS neu lle na chafodd DoLS eu hawdurdodi.

Mae diffyg gwybodaeth a dealltwriaeth o DoLS ymhlith staff, hyfforddiant gwael ar asesiadau'r Ddeddf Iechyd Meddwl, ac oedi ac ôl-groniadau o ran ceisiadau yn parhau i fod yn broblemau allweddol sy'n effeithio ar system DoLS yn Lloegr. Yn y sector gofal cymdeithasol i oedolion, gwelwyd nad oedd rheolwyr llai profiadol yn deall yr angen i wneud cais am DoLS, yn enwedig ar ôl i awdurdodiadau a gymeradwywyd yn flaenorol ddod i ben.

Gwelwyd cynnydd o 462% yn nifer y gorchmynion DoLS ar gyfer plant dros y tair blynedd diwethaf yn Lloegr, sy'n dangos bod angen gwirioneddol am leoliadau i ddiwallu anghenion plant, gan gynnwys lleoliadau diogel a gofal cam-i-lawr.[105] Mae'n bryderus nodi bod diffyg lleoliadau diogel neu ddarpariaeth addas arall yn golygu bod mwy o blant yn cael gorchmynion DoLS. Mae'n debyg bod traean o'r plant hyn wedi bod mewn darpariaeth anghofrestredig ar ryw adeg – ymhellach i ffwrdd oddi wrth brosesau goruchwylio rheoleiddiol er eu bod yn agored i niwed. Pwerau cyfyngedig sydd gan Ofsted o hyd er gwaethaf ymrwymiad gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar y pryd yn 2021 i'w hymestyn. Croesawodd Comisiynydd Plant Lloegr lansiad y Llys DoLS Cenedlaethol yn y Llysoedd Cyfiawnder Brenhinol fel cam tuag at sicrhau mwy o arbenigedd a chraffu wrth gymeradwyo gorchmynion DoLS. Fodd bynnag, ym mis Hydref 2023, caiff y mesur hwn ei ddisodli

102 Out of sight – who cares? Restraint, segregation and seclusion review – Arolygiaeth Gofal yr Alban **(cqc.org.uk)**

103 The state of health care and adult social care in England 2021/22 – Arolygiaeth Gofal yr Alban **(cqc.org.uk)**

104 The state of health care and adult social care in England 2021/22 – Arolygiaeth Gofal yr Alban **(cqc.org.uk)**

105 Submission to United Nations Committee on the Rights of the Child – Comisiynydd Plant Lloegr **(childrenscommissioner.gov.uk)**

gan y Rhestr DoLS Genedlaethol, a fydd yn parhau i gael ei goruchwylio drwy'r Is-adran Teuluoedd.[106] Disgrifiodd y Comisiynydd Plant wardiau cleifion mewnol i blant fel mannau a allai godi ofn sy'n gwahanu plant oddi wrth deulu a ffrindiau, yn amharu ar eu haddysg ac yn defnyddio lefelau uchel o arferion cyfyngol. Mae'r llywodraeth wrthi'n cynnal adolygiad cyflym o leoliadau iechyd meddwl cleifion mewnol, mewn ymateb i achosion lle roedd plant wedi cael eu cam-drin. Er ei bod yn dda gweld y llywodraeth yn cymryd camau rhagweithiol i adolygu'r achosion hyn, mae'n destun pryder mawr bod y trothwy ar gyfer camdriniaeth yn amlwg wedi cael ei groesi. Yn yr Alban, cyhoeddodd yr Arolygiaeth Gofal arolygiad o brofiadau plant sy'n destun gorchmynion DoLS ym mis Mehefin 2023, ynghyd ag arweiniad i ddarparwyr, gweithwyr cymdeithasol a chomisiynwyr lleoliadau.[107] Roedd yr arolygiad hwn y tu allan i'r cyfnod adrodd ac felly caiff y canfyddiadau eu hystyried ymhellach yn adroddiad blynyddol y flwyddyn nesaf.

Roedd ceisiadau DoLS i awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cynyddu ond roeddent yn is nag yr oeddent cyn y pandemig. Er bod nifer y ceisiadau i fyrddau iechyd yn gyson, bu cynnydd mewn ceisiadau brys ers 2019. Roedd y cynnydd yn y galw am ofal a chymorth ar ôl COVID-19 wedi rhoi pwysau sylweddol ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, a oedd wedi cyd-daro ag argyfwng o ran recriwtio a chadw staff.

Mae hyn wedi effeithio ar brosesau asesu DoLS ac mae byrddau iechyd ac awdurdodau lleol yn poeni y gallai pobl fod wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon o ganlyniad i hynny.[108] Ni allai bron unrhyw gorff goruchwylio yng Nghymru fod yn sicr nad oedd hawliau dynol pobl yn cael eu torri am eu bod yn cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn anghyfreithlon o ganlyniad i oedi parhaus wrth asesu ceisiadau DoLS.[109] Fodd bynnag, gwelwyd gwelliannau sylweddol o gymharu â'r flwyddyn adrodd flaenorol yn yr ystyr bod y rhan fwyaf o bobl wedi cael cymorth a chynrychiolaeth mewn perthynas â materion yn ymwneud ag amddifadu o ryddid yng Nghymru..

Yng Nghymru, fel gwledydd eraill y DU, caiff rhai plant sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid eu gosod mewn lleoliadau anghofrestredig anghyfreithlon. Ni chaiff y trefniadau hyn eu cwmpasu gan unrhyw rai o aelodau presennol NPM y DU. Dywedodd Yvette Stanley, Cyfarwyddwr Gofal Cymdeithasol Ofsted, yn ddiweddar:

> **"It's unacceptable that some of our most vulnerable children with very complex needs are living in places with the least oversight, where we do not know if they are safe, or if the people caring for them are suitable or skilled enough to meet their needs."[110]**

106 Revised National Listing Protocol for applications that seek deprivation of liberty orders relating to children under the inherent jurisdiction – Barnwriaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd **(judiciary.uk)**

107 Depriving and restricting liberty for children and young people in care home school care and secure accommodation services – Arolygiaeth Gofal yr Alban **(careinspectorate.com)**; Lleoli plant: gorchmynion amddifadu o ryddid – Arolygiaeth Gofal Cymru **(careinspectorate.wales)**

108 Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid: Adroddiad monitro blynyddol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol 2021-22 – Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru **(hiw.org.uk)**

109 Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid: Adroddiad monitro blynyddol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol 2021-22 – Arolygiaeth Gofal Cymru **(careinspectorate.wales)**

110 Ofsted warns against use of unregistered children's homes – GOV.UK (www.gov.uk)

Yn 2022-23 mae nifer cyfartalog y plant sy'n peri risg ddifrifol iddynt eu hunain neu bobl eraill ac sy'n aros am le mewn cartref diogel i blant wedi cynyddu i 51, yn ôl data'r Adran Addysg. Mae cartrefi diogel i blant yn gofalu am blant sydd wedi cael eu remandio yn y ddalfa, plant sy'n bwrw dedfryd yn ogystal â phlant sy'n peri risg sylweddol iddynt eu hunain neu bobl eraill nad ydynt yn cael eu cadw am resymau cyfiawnder. Mae cartrefi diogel i blant yn perfformio'n dda iawn ar y cyfan. Mae plant yn cael gofal da, addysg dda ac yn cael cymorth i fynd i'r afael â'r rhesymau pam eu bod mewn gofal diogel. Mae'r dull therapiwtig, gan ddefnyddio'r Fframwaith ar gyfer Gofal Integredig (SECURE STAIRS), wedi bod o fudd sylweddol i'r plant a'r staff sy'n gofalu amdanynt.[111] Mae rhai o'r plant sy'n destun DoLS yn blant a fyddai wedi cael eu gosod mewn cartref diogel i blant pe bai lle wedi bod ar gael. Mae rhai o'r gwasanaethau a ddefnyddir i ofalu am y plant hyn yn anghofrestredig ac felly nid oes ganddynt yr un mesurau diogelu â darpariaeth gofrestredig. Mae cymhlethdod yr anghenion sydd gan y plant mewn cartrefi diogel i blant yn parhau a chaiff rhai plant eu lleoli am nad oes darpariaeth briodol ar gael a all ddiwallu eu hanghenion meddyliol ac emosiynol a'u cadw'n ddiogel. Maent yn parhau i ddarparu lefel dda o ofal i'r plant y maent yn gofalu amdanynt yn gyffredinol, er eu bod yn wynebu'r un problemau o ran recriwtio a chadw staff â sectorau eraill.

## Gogledd Iwerddon

Yng Ngogledd Iwerddon, caiff DoLS eu cwmpasu gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Gogledd Iwerddon) 2016. Gall dau weithiwr proffesiynol awdurdodi y gall person gael ei gadw yn yr ysbyty am 14 diwrnod, y gellir ei ymestyn am 14 diwrnod arall. Mewn lleoliadau eraill heblaw ysbytai, panel ymddiriedolaeth sy'n rhoi'r awdurdodiad hwn. Mae'r RQIA yn gwybod bod adnoddau digonol yn hollbwysig i'w alluogi i gyflawni ei gyfrifoldebau statudol newydd a nodir yn y Ddeddf Galluedd Meddyliol yn effeithiol er mwyn atgyfnerthu mesurau amddiffyn ar gyfer pobl a gaiff eu cadw o dan DoLS o dan y Ddeddf Galluedd Meddyliol (2016) ac mae'n cymryd camau i sicrhau hyn.

Mae'r RQIA yn monitro trefniadau cadw gyda lleoliadau iechyd meddwl o dan Orchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986, gan adolygu 9,200 o ffurflenni yn ystod y flwyddyn. Mae'r RQIA yn diogelu hawliau cleifion sydd wedi cael eu cadw ac sy'n gwrthod y driniaeth sydd wedi'i rhagnodi iddynt, neu sydd heb y galluedd i gydsynio i driniaeth. Er mwyn cyflawni'r cyfrifoldeb hwn, mae'r RQIA yn penodi seiciatryddion ymgynghorol profiadol fel meddygon ail farn penodedig i roi ail farn ar y driniaeth arfaethedig, gan gynnwys adolygiadau o feddyginiaeth a therapi electrogynhyrfol mewn achosion lle nad yw'r claf wedi rhoi cydsyniad o bosibl. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 551 o geisiadau eu rheoli am ail farn mewn perthynas â Rhan IV o Orchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986, gan gynnwys 508 o adolygiadau o feddyginiaeth a 43 mewn perthynas â therapi electrogynhyrfol.[112] Cynhaliodd yr RQIA 27 o arolygiadau o ysbytai iechyd meddwl yng Ngogledd Iwerddon, gan nodi prinder staff sylweddol a'r ffaith bod y mwyafrif o wardiau cleifion mewnol yn gweithredu uwchlaw eu capasiti yn rheolaidd. Roedd prinder gwelyau ar gyfer cleifion mewnol ag anableddau dysgu yn arwain at oedi cyn y gellir eu derbyn neu'n arwain at dderbyniadau i wardiau iechyd

111 NHS commissioning: Children and young people – NHS **(england.nhs.uk)**

112 RQIA annual report and accounts 1 April 2022-31 March 2023 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**

meddwl, sy'n cael effaith ar nifer y lleoedd iechyd meddwl sydd ar gael. [113]

Roedd hyfforddiant DoLS yn gyfredol ar y cyfan, heblaw am ddau eithriad. Ni chofnododd yr RQIA bryderon ynghylch yr ystyriaeth a roddir i gapasiti ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth y mae angen lefel uchel o oruchwyliaeth arnynt.[114] Mewn un cartref gofal, cafodd un maes i'w wella ynghylch diweddaru hyfforddiant DoLS ei nodi'r eildro.[115] Er eu bod wedi'u cynllunio ar gyfer carchardai, mae Rheolau Nelson Mandela hefyd yn pennu safonau gofynnol ar gyfer pobl sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn lleoliadau eraill, gan amlinellu pwysigrwydd addysg a hyfforddiant digonol i staff o dan Reol 75. Mae angen hyfforddiant pwrpasol ar ddyletswyddau cyffredinol a phenodol ar bob aelod o staff cyn iddynt ddechrau eu dyletswyddau, ac mae gweinyddiaethau'n gyfrifol am ddarparu hyfforddiant parhaus ar ddeddfwriaeth, rheoliadau a pholisïau perthnasol, hawliau a dyletswyddau staff, diogelwch, a chymorth cyntaf fan lleiaf (Rheol 76).

## Yr Alban

IYn yr Alban, mae Deddf Iechyd Meddwl (Gofal a Thriniaeth) (Yr Alban) 2003 yn rhoi'r hawl i gadw unigolion mewn argyfwng am hyd at 72 awr ar argymhelliad meddyg a, lle y bo'n bosibl, swyddog iechyd meddwl, cadw unigolion am gyfnod byr dymor yn yr ysbyty ar argymhelliad seiciatrydd a swyddog iechyd meddwl, a gorchmynion triniaeth orfodol ar gais gan swyddog iechyd meddwl.[116] Daw mesurau amddiffyn ar gyfer y rhai sy'n 16 oed a throsodd ac sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid yn yr Alban o dan Ddeddf Oedolion ag Analluedd (Yr Alban) 2000, ac maent yn cynnwys tystysgrif analluedd Adran 47, a gaiff ei chwblhau gan weithiwr gofal iechyd proffesiynol y mae'n rhaid iddo brofi bod y driniaeth yn cydymffurfio â'r Ddeddf.

Cynhaliodd MWCS arolygiad cadarnhaol ar y cyfan o Ysbyty State yn Carstairs, lle roedd staff nyrsio yn cael hyfforddiant parhaus i ddiwallu anghenion cymhleth y cleifion, a fyddai'n cael ei ategu'n fuan gan hyfforddiant cymorth cymheiriaid.[117] Roedd cynlluniau gofal yn fanwl ac yn canolbwyntio ar yr unigolyn gyda thystiolaeth i ddangos

113 RQIA annual report and accounts 1 April 2022-31 March 2023 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**

114 Inspection report: 30 June 2022 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**; Inspection report: 27 October 2022 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**; Inspection report: 9 December 2022 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**; Inspection report: 20 September 2022 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**; Inspection report: 30 December 2022 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**; Inspection report: 17 November 2022 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**; Inspection report: 24 May 2022 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**; Inspection report: 19 May 2022 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**; Inspection report: 1 November 2022 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**; Inspection report: 23 March 2023 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**; Inspection report: 20 March 2023 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**; Inspection report: 6 March 2023 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**

115 Inspection report: 9 September 2022 – Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd **(rqia.org.uk)**

116 Mental Health Act – Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban **(mwcscot.org.uk)**

117 Search – Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban **(mwcscot.org.uk)**

bod cleifion yn cael eu cynnwys, ond roedd anawsterau staffio parhaus a sylweddol a oedd yn effeithio ar ofal cleifion.

Canfu arolygiadau o lety diogel i bobl ifanc yn yr Alban wasanaethau da neu dda iawn. Fodd bynnag, canfu arolygiad a gwblhawyd yn union ar ôl i'r flwyddyn adrodd ddod i ben heriau sylweddol a achoswyd gan broblemau staffio, gyda threfniadau rheoli aneglur ac angen i wella prosesau sicrhau ansawdd er mwyn sicrhau gofal sy'n gyson ddiogel.[118] Mewn mathau eraill o lety, roedd parch mawr at bobl ifanc, gyda chydberthnasau da rhwng y staff a'r bobl ifanc, amgylcheddau da i bobl ifanc, a sicrwydd ansawdd cryf, er bod recriwtio a staffio wedi bod yn her fawr yn un ganolfan.[119]

## Lleoedd cadw iechyd meddwl: cyfraniadau at ddatblygu deddfwriaeth

Cafodd Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid eu cyflwyno gan Ddeddf Galluedd Meddyliol (Diwygiad) 2019 i ddisodli DoLS fel y system i amddifadu pobl dros 16 oed o'u rhyddid yn gyfreithlon yng Nghymru a Lloegr. Ymgynghorodd llywodraeth y DU ar god ymarfer drafft ar gyfer Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid rhwng mis Mawrth a mis Gorffennaf 2022, ac ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar reoliadau drafft i gefnogi'r gwaith o weithredu Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yng Nghymru.

Daeth yr ymgynghoriad yng Nghymru i'r casgliad y dylid penodi Arolygiaeth Gofal Cymru, Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru ac Estyn yn gyrff monitro ar gyfer Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yng Nghymru, gyda chyfrifoldebau adrodd chwarterol fel mesur diogelu ychwanegol. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon y gallai cyfrifoldebau gael eu dyblygu mewn achosion lle mae dyletswydd ar ddarparwyr yn barod i hysbysu Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016.[120] Mae'r Ddeddf Ddiwygio a Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid wedi cael eu hoedi am gyfnod amhenodol. Ymatebodd Comisiynydd Plant Lloegr i ymgynghoriad llywodraeth y DU ar newidiadau arfaethedig i God Ymarfer Deddf Galluedd Meddyliol 2005 a gweithrediad y Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid, gan fynegi pryderon y byddent yn cynnig mesurau diogelu gwannach i bobl ifanc 16 a 17 oed o gymharu â'r trefniadau presennol..[121]

Ar ddechrau 2021, cyhoeddodd llywodraeth y DU ddiwygiadau i Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yng Nghymru a Lloegr. Wrth roi tystiolaeth i'r Cydbwyllgor ar y Bil Iechyd Meddwl Drafft, cododd y CQC bwyntiau am amcanestyniad realistig o'r adnoddau a'r gweithlu y byddai eu hangen i gyflawni

118 Unannounced inspection of St. Mary's Kenmure Secure Accommodation Service, 27 April 2023 – Arolygiaeth Gofal yr Alban (careinspectorate.com)

119 Unannounced inspection of Good Shepherd Centre Bishopston, 25 May 2023 – Arolygiaeth Gofal yr Alban (careinspectorate.com); Unannounced Inspection of Kibble Safe Centre, 1 December 2022 – Arolygiaeth Gofal yr Alban (careinspectorate.com); Unannounced Inspection of Rossie Secure Accommodation Services, 30 January 2023 – Arolygiaeth Gofal yr Alban (careinspectorate.com)

120 Crynodeb o'r ymateb i'r ymgynghoriad – Rheoliadau drafft ar gyfer Cymru: Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid – Llywodraeth Cymru **(gov.wales)**

121 Submission to United Nations Committee on the Rights of the Child – Comisiynydd Plant Lloegr **(childrenscommissioner.gov.uk)**

uchelgeisiau'r Bil.[122] Ymatebodd y CQC a MWCS i'r cynnig ynghylch dogfennau rhagddewis, gan argymell y dylent gael eu cynnwys fel elfen statudol er mwyn gwella rôl yr unigolyn yn y penderfyniadau y bydd yn ei wneud ei hun yn ystod pyliau o gymhelliad. Mae sicrhau bod person yn cael ei gynnwys i'r graddau sy'n bosibl yn ei ofal ei hun yn hollbwysig i'r egwyddor o gydsynio i ofal.

IYn yr Alban, ymatebodd yr Arolygiaeth Gofal a Chomisiwn Hawliau Dynol yr Alban i ymgyngoriadau ar gynigion ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol. Tynnodd yr Arolygiaeth Gofal sylw at angen am ddull gweithredu sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n seiliedig ar hawliau dynol, a ategir gan y Safonau Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Nid yw Llywodraeth yr Alban wedi cadarnhau o hyd a yw gwasanaethau plant a chyfiawnder wedi'u cynnwys, ac mae'r Arolygiaeth Gofal yn poeni y bydd y Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol yn arwain at gyfrifoldebau'n cael eu rhannu rhwng gweinidogion, awdurdodau lleol a byrddau iechyd, a allai wanhau cyfrifoldebau oni bai bod rôl benodol pob corff yn cael ei diffinio'n glir. Ym mhob peth a wneir mewn perthynas â phlant, boed hynny gan sefydliadau lles cymdeithasol preifat neu gyhoeddus, rhaid sicrhau bod lles pennaf y plentyn yn ystyriaeth sylfaenol.[123]

Ymatebodd MWCS i ymgynghoriad Llywodraeth yr Alban ar yr Adolygiad o Gyfraith Iechyd Meddwl yr Alban ym mis Mehefin 2022. Dywedodd fod lleoedd cadw yn cael eu defnyddio'n ormodol mewn ymateb i hunan-niweidio a seicosis ymhlith plant a galwodd am ddileu darpariaethau yn y gyfraith sy'n caniatáu i gyfnod dan gadw ddeillio o leoliad cymunedol ar sail barn un gweithiwr meddygol proffesiynol.[124]

Cyflwynodd MWCS hefyd gynigion ar gyfer system newydd i adolygu marwolaethau mewn lleoedd cadw iechyd meddwl yn yr Alban, gan argymell y dylai corff annibynnol gynnal adolygiadau amserol. Mae angen gwaith craffu amserol ac annibynnol i nodi cyfleoedd i newid er mwyn amddiffyn hawl carcharorion i fywyd yn well a chyflawni rhwymedigaethau cadarnhaol gwladwriaethau i ddiogelu bywydau'r bobl hynny o fewn eu hawdurdodaeth.

Ym mis Mawrth 2023, cyfrannodd yr RQIA at ymgynghoriad yng Ngogledd Iwerddon ar bolisi rhanbarthol newydd yr Adran Iechyd ar y defnydd o arferion cyfyngol.[125] Mae'r polisi hwn yn darparu'r fframwaith rhanbarthol i integreiddio arfer gorau o ran rheoli ymyriadau cyfyngol, atal ac arwahanu ym mhob maes lle caiff gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eu darparu yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r pwyslais ar roi'r gorau i'w defnyddio ac yn sicr ar leihau'r defnydd a wneir ohonynt. Mae'n gymwys i bawb – plant, pobl ifanc, oedolion a phobl hŷn, i'r holl staff iechyd a gofal cymdeithasol a'r holl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol..

Mae aelodau wedi bod yn weithgar wrth gyflawni eu mandad o dan Erthygl 19 (C) OPCAT i gyflwyno cynigion ac arsylwadau ynghylch deddfwriaeth bresennol neu ddrafft. Mae hyn yn elfen bwysig o

122 Bil Iechyd Meddwl Drafft 2022 – Tŷ'r Cyffredin a Thŷ'r Arglwyddi (parliament.uk); Tystiolaeth ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y Comisiwn Ansawdd Gofal**(committees.parliament.uk)**


123 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Erthygl 3(1)

124 Scottish Mental Health Law Review: consultation response – Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban **(mwcscot.org.uk)**

125 Regional policy on the use of restrictive practices in health and social care settings – Adran Iechyd, Gogledd Iwerddon **(health-ni.gov.uk)**



# Plant: lleoliadau pell a diwylliannau caeedig



Nododd arolygwyr i'r Arolygiaeth Gofal gynnydd yn nifer y plant yn yr Alban a oedd yn cael eu lleoli mewn cartrefi gofal rheoleiddiedig trawsffiniol neu bellter hir, a gwnaethant dynnu sylw at yr effaith negyddol ar blant, y gallai eu hawliau fod wedi'u hamddiffyn yn llai o ganlyniad i waith cynllunio annigonol, ymarfer gwael a diffyg adnoddau yn y cymunedau cartref[126]. Mae lleoliadau trawsffiniol a phellter hir yn amharu ar gyswllt teuluol, cymunedau, diwylliant, addysg, eiriolaeth, dealltwriaeth o hawliau, pontio a gwaith cynllunio lleoliadau. Mae Erthygl 9 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn ei gwneud yn ofynnol i wladwriaethau barchu hawliau plentyn sydd wedi cael ei wahanu oddi wrth un rhiant neu'r ddau riant i gynnal cysylltiadau personol a chyswllt uniongyrchol â'r ddau riant yn rheolaidd, ac eithrio pan fo hynny'n groes i'w les pennaf.

Gan fyfyrio ar y nifer sylweddol o leoliadau trawsffiniol ar gyfer plant, nododd yr Arolygiaeth Gofal:

> "While a legal pathway for placements to care homes from England, Wales and Northern Ireland exists, questions persist particularly around orders made under Section 20 of the Children Act 1989, interim care orders, and the legal effect of deprivation of liberty orders in Scotland. Cases have been challenged where it has been argued children have been deprived of their liberty unlawfully in care home establishments that are not authorised under Scottish legislation to do this."

O dan Ddeddf Plant 1989 a Rheoliadau Cynllunio Gofal, Lleoli ac Adolygu Achosion (Lloegr) 2010, mae'n ofynnol i awdurdodau lleoli yn Lloegr gynllunio'n effeithiol ar gyfer lleoliadau, ymgysylltu â'r awdurdod derbyn, a rhannu gwybodaeth â'r gwasanaeth derbyn. Rhaid i awdurdodau lleol yn Lloegr sy'n lleoli plentyn mewn gofal preswyl yn yr Alban o dan gyfyngiadau amddifadu o ryddid ddilyn rheoliadau perthnasol yr Alban er mwyn sicrhau bod y gorchymyn yn cael ei gydnabod yn gyfreithiol.[127] Rhaid i'r awdurdod lleol sy'n lleoli'r plentyn roi ymgymeriad ysgrifenedig i bobl benodedig cyn symud y plentyn i'r Alban a gall rannu unrhyw wybodaeth berthnasol arall â'r awdurdod lleol perthnasol yn yr Alban. Mae'r Arolygiaeth Gofal yn yr Alban ac Ofsted wedi datblygu protocol ar gyfer rhannu gwybodaeth pan fo pryderon am yr hyn y mae awdurdod lleol yn ei wneud neu'r hyn nad yw yn ei wneud yn awdurdodaeth y llall, ond mae'r camau y gellir eu cymryd i fandadu gwelliannau wedi'u cyfyngu o hyd. Nid yw'n ymddangos bod lleoliadau trawsffiniol rhwng Cymru a Lloegr yn peri problemau atebolrwydd o'r fath am fod y systemau cyfreithiol yn integredig. Fodd bynnag, bydd lleoliadau o'r fath yn tarfu ar gymuned ac addysg y plant dan sylw o hyd. Mae Arolygiaeth Gofal Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn egluro, os caiff rhai pobl o Gymru ofal a chymorth neu driniaeth mewn cartrefi gofal ac ysbytai y tu allan i Gymru, y cyrff goruchwylio yng Nghymru fydd yn gyfrifol am yr asesiadau DoLS o hyd.[128]

Mae lleoli pobl mewn ysbytai ymhell o'u cartref, sy'n broblem benodol i bobl awtistig a phobl ag anabledd dysgu, yn cynyddu'r

126 Report on distance placements: exploration of practice, outcomes, and children's rights, May 2022 – Arolygiaeth Gofal yr Alban **(careinspectorate.com)**

127 **Cross-border Placements (Effect of Deprivation of Liberty Orders) (Scotland) Regulations 2022**

128 Trefniadau Diogelu rhag Colli Rhyddid: Adroddiad monitro blynyddol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol 2021-22 – Arolygiaeth Gofal Cymru **(careinspectorate.wales)**

risg y bydd diwylliannau caeedig yn datblygu.[129] Caiff diwylliannau caeedig eu dwysáu hefyd gan brinder staff a defnydd cynyddol o staff asiantaeth, sy'n amharu ar ofal parhaus – ffactor risg sylfaenol yn natblygiad diwylliant caeedig. Gan gydnabod sylw parhaus yn y cyfryngau i ddiwylliannau camdriniol mewn lleoliadau gofal, mae'r CQC yn ymwybodol iawn o'r risg o gamdriniaeth yn erbyn pobl awtistig a phobl ag anabledd dysgu mewn diwylliannau o'r fath. Mae'r CQC wedi parhau i ddatblygu ei ddull gweithredu er mwyn nodi a chymryd camau os bydd gwasanaethau yn methu â diwallu anghenion pobl.

Rhwng mis Chwefror a mis Mehefin 2023, cynhaliodd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon adolygiad o hawliau dynol: 'Children and young people: Strip searching in police custody.[130]

Ymhlith yr argymhellion oedd ailysgrifennu Erthygl 55 o Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol er mwyn sicrhau bod yn rhaid bod gan swyddogion dalfeydd sail onest a gwrthrychol dros amau bod gan unigolyn eitem waharddedig cyn y gellir awdurdodi noeth-chwiliad. Yna, ni ddylid noeth-chwilio plant oni fydd unrhyw ffordd arall o ddod o hyd i'r eitem, amddiffyn y person neu amddiffyn pobl eraill. Argymhellodd yr arolygiad y dylai staff dalfeydd gadw cofnod clir o fanylion eu penderfyniadau i gynnal noeth-chwiliadau. Dylai Gwasanaeth yr Heddlu Gogledd Iwerddon gyhoeddi ffigurau blynyddol wedi'u dadgyfuno ar noeth-chwilio plant, gan gynnwys y rhesymau a'r canlyniad, p'un a oedd oedolyn priodol yn bresennol ac os nad oedd oedolyn yn bresennol, pam.

O safbwynt noeth-chwilio plant, mae dibynadwyedd data a gwybodaeth anghywir yn bryder ledled y DU, a godwyd yng nghyd-destun yr adolygiad o hawliau dynol yng Ngogledd Iwerddon.[131] Mae heddluoedd yn cyflwyno data ar noeth-chwiliadau i'r Swyddfa Gartref yn wirfoddol. Yng Ngogledd Iwerddon, problem benodol a nodwyd yw os na lwyddir i ddod o hyd i eitemau yn ystod noeth-chwiliad, mae hynny'n codi amheuon am natur y gudd-wybodaeth neu'r dystiolaeth dros y chwiliad. Ym mhob peth sy'n effeithio ar blant, rhaid i les pennaf y plentyn fod yn ystyriaeth sylfaenol yn ôl Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthygl 3). Rhaid i unrhyw achos o darfu ar breifatrwydd fod yn unol â'r gyfraith, yn angenrheidiol er mwyn cyflawni nod dilys, ac yn gymesur (Erthygl 8 o'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ac Erthygl 16 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).

129 Monitoring the Mental Health Act in 2021 to 2022 – Comisiwn Ansawdd Gofal **(cqc.org.uk)**

130 Human Rights Review – Children and young people: Strip searching in police custody – Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon **(nipolicingboard.org.uk)**

131 Human Rights Review – Children and young people: Strip searching in police custody – Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon **(nipolicingboard.org.uk)**



# Aelodau'r NPM; blaenoriaethau a gwaith presennol



## Yr Arolygiaeth Gofal yn yr Alban

Cynhaliodd yr Arolygiaeth Gofal yn yr Alban arolygiadau dirybudd o'r pum gwasanaeth llety diogel cofrestredig eleni. Yn ogystal, cyhoeddodd 'Report on distance placements: exploration of practice, outcomes, and children's rights' ym mis Mai 2022. Ar y cyd â HMICS, HMIPS ac Arolygiaeth Erlyn Ei Fawrhydi yn yr Alban, cynhaliodd yr Arolygiaeth Gofal adolygiad ar y cyd o wyriadau oddi wrth erlyniad. Ymgynghorodd hefyd ar Safonau Barnahus ac ar gynigion Llywodraeth yr Alban ar gyfer Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol..

## Arolygiaeth Gofal Cymru

Ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru, mae Arolygiaeth Gofal Cymru yn monitro Trefniadau Diogelu Wrth Amddifadu o Ryddid yng Nghymru, gan lunio'r adroddiad monitro blynyddol ar gyfer iechyd a gofal cymdeithasol. Drafftiodd Arolygiaeth Gofal Cymru strategaeth monitro ac adrodd ar gyfer Diogeliadau Amddiffyn Rhyddid yng Nghymru a chyfrannodd at ymgynghoriad llywodraeth y DU ar Ddiogeliadau Amddiffyn Rhyddid..

## Y Comisiwn Ansawdd Gofal (CQC)

Mae'r CQC yn cyhoeddi adroddiadau 'Monitro'r Ddeddf Iechyd Meddwl' ac adroddiadau 'Cyflwr gofal' bob blwyddyn, sy'n adrodd ar y trefniadau amddiffyn a'r ffordd y caiff y rhai a gedwir o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl a'r rhai sydd wedi cael eu hamddifadu o'u rhyddid mewn lleoliadau iechyd a gofal cymdeithasol eu trin. Ym mis Tachwedd 2022, cyhoeddodd y CQC adroddiad ar ymweliadau a oedd yn canolbwyntio ar orchmynion triniaeth gymunedol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl. Ym mis Awst 2023, cyhoeddodd y CQC ei safbwynt polisi newydd ar arferion cyfyngol, a oedd yn nodi bod disgwyl i ddarparwyr hyrwyddo diwylliannau cadarnhaol lle mae staff yn gwrando ar y bobl yn eu gofal ac yn eu deall, hyrwyddo ymddiriedaeth, helpu pobl i ymadfer, ac amddiffyn diogelwch a llesiant pob claf a phawb sy'n defnyddio gwasanaethau.[132] Mae'r CQC yn disgwyl bod darparwyr yn dadansoddi unrhyw achosion o arferion cyfyngol er mwyn dysgu ohonynt a lleihau'r defnydd a wneir ohonynt. Mae'r CQC yn rheoleiddio darparwyr cofrestredig, gan gynnwys y gofynion hyfforddi ar gyfer staff sydd, o dan Ddeddf Iechyd a Gofal 2022, yn cynnwys gofyniad mewn perthynas ag anableddau dysgu ac awtistiaeth.[133]

Mae'r CQC hefyd yn monitro, yn arolygu ac yn rheoleiddio iechyd a gofal cymdeithasol yn y system cyfiawnder troseddol a'r system cadw mewnfudwyr er mwyn sicrhau bod pobl sy'n defnyddio gwasanaethau mewn lleoliadau diogel yn cael gofal o'r un ansawdd â gweddill y boblogaeth. Mae'r CQC yn gwneud gwaith thematig parhaus gyda HMIP ar yr hyn sy'n achosi oedi i drosglwyddiadau iechyd meddwl o garchardai, sefydliadau troseddwyr ifanc a chartrefi diogel i blant.

Mae dyletswydd ar y CQC o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl i fonitro sut mae gwasanaethau yn arfer eu pwerau ac yn cyflawni eu dyletswyddau pan gaiff cleifion

132 Restrictive practice – a failure of person-centred care planning? – Medium **(carequalitycomm.medium.com)**

133 Training staff to support autistic people and people with a learning disability – Comisiwn Ansawdd Gofal **(cqc.org.uk)**. O 1 Gorffennaf 2022, mae gofyniad cyfreithiol newydd a gyflwynwyd gan Ddeddf Iechyd a Gofal 2022 yn ei gwneud yn ofynnol i bob darparwr sydd wedi cofrestru â'r CQC sicrhau bod ei staff yn cael hyfforddiant ar anableddau dysgu ac awtistiaeth ar lefel sy'n briodol i'w rôl..

eu cadw yn yr ysbyty neu pan fo cleifion yn destun gorchmynion triniaeth gymunedol neu warcheidiaeth. Mae'r CQC yn ymweld ac yn cyfweld â phobl sydd wedi'u cadw ar hyn o bryd mewn ysbytai ac mae ganddo ddyletswyddau penodol o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, fel darparu gwasanaeth meddygon ail farn penodedig, adolygu cwynion o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, a gwneud cynigion ar gyfer newidiadau i'r cod ymarfer. Mae'r CQC hefyd yn cyfrannu at ymgyngoriadau ar ddiwygio'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn Lloegr..

## Comisiynydd Plant Lloegr

Ymhlith yr adroddiadau lu a gyhoeddwyd drwy gydol y flwyddyn adrodd, cafodd adroddiadau Comisiynydd Plant Lloegr ar gyswllt teuluol mewn dalfeydd ieuenctid ac ar wasanaethau iechyd meddwl plant yn ystod 2021-22 eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2023.

Ymgysylltodd Comisiynydd Plant Lloegr yn helaeth â llywodraeth y DU ar y Bil (bellach, y Ddeddf) Mudo Anghyfreithlon, gan gyhoeddi blaenoriaethau ar gyfer drafftio diwygiadau (24 Mawrth 2023), papur briffio i ASau (13 Mawrth 2023), papur briffio i ASau cyn cam adrodd y Bil Mudo Anghyfreithlon (25 Ebrill 2023), a phapur briffio i Arglwyddi ar y Bil Mudo Anghyfreithlon ar 10 Mai 2023.

IYm mis Rhagfyr 2022, cyflwynodd Comisiynydd Plant Lloegr dystiolaeth i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.

Ar ôl dadansoddiad ym mis Awst 2022 o achosion o noeth-chwilio plant gan Wasanaeth yr Heddlu Metropolitanaidd, cynhaliodd y Comisiynydd Plant ei brosiect cyntaf ar noeth-chwilio, gan gyhoeddi adroddiad ar noeth-chwilio plant yng Nghymru a Lloegr ym mis Mawrth 2023.

## Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon (CJI)

Cyhoeddodd y CJI bum adroddiad arolygu ac roedd yn aros i gyhoeddi'r chweched ar ddiwedd y flwyddyn adrodd hon. Ym mis Medi 2022, cyhoeddodd y CJI arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ganolfan Cyfiawnder Ieuenctid Woodlands (mewn partneriaeth â'r RQIA a'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant) a oedd yn ymwneud â'i swyddogaeth NPM. Cafodd fersiwn addas i bobl ifanc o'r adroddiad ei chyhoeddi hefyd a chafodd groeso mawr. Caiff adroddiadau ar waith arolygu arall yng ngharchardai Gogledd Iwerddon a gwblhawyd yn ystod y flwyddyn eu cyhoeddi ym mlwyddyn ariannol 2023-24.

Arolygodd y CJI safleoedd prawf cymeradwy hefyd (Mawrth 2023) gan ystyried yr amodau ar gyfer pobl sydd wedi cael eu rhyddhau ar drwydded o'r carchar.[134] Y CJI yw'r corff goruchwylio dynodedig ar gyfer yr adolygiad cyntaf o Ran 1 o Ddeddf Cam-drin Domestig ac Achosion Sifil (Gogledd Iwerddon) 2021, yn ychwanegol at raglen arolygu'r CJI.

## Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru

Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru yn monitro sut mae byrddau iechyd a darparwyr annibynnol yn cyflawni eu pwerau a'u dyletswyddau o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, a ddiwygiwyd yn 2007, ar ran gweinidogion Cymru. Mae Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi diwygio'r fethodoleg cydymffurfio â'r Ddeddf Iechyd Meddwl yn sylweddol er mwyn helpu adolygwyr sy'n monitro sut mae'r byrddau iechyd a darparwyr annibynnol yn cyflawni

134 A review of probation approved premises in Northern Ireland – Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon Northern Ireland **(cjini.org)**

eu dyletswyddau o dan y Ddeddf. Yn ogystal, yr Arolygiaeth sy'n rhedeg y gwasanaeth meddygon ail farn penodedig yng Nghymru. Mae'r gwasanaeth hwn yn diogelu hawliau pobl sydd, tra'u bod yn cael eu cadw o dan y Ddeddf Iechyd Meddwl, wedi gwrthod triniaeth a ragnodwyd neu bobl y mae asesiad wedi dangos nad oes ganddynt y galluedd i gydsynio i'r driniaeth..

Yn 2022-23, cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 22 o arolygiadau ar safleoedd amrywiaeth o leoliadau gofal iechyd sy'n rhan o'r GIG ac ysbytai annibynnol. Roedd y ward yn darparu ar gyfer amrywiaeth o gleifion a oedd yn cynnwys oedolion â phroblemau iechyd meddwl, pobl hŷn, oedolion ag anableddau dysgu a'r Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed. Ar y cyd ag Arolygiaeth Gofal Cymru, ymwelodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru â thri thîm iechyd meddwl cymunedol. Caiff yr adroddiadau ar yr ymweliadau hyn eu cyhoeddi yn ystod hydref 2023. Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru adolygiad lleol hefyd o drefniadau i ryddhau cleifion sy'n oedolion o wasanaethau iechyd meddwl cleifion mewnol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Yn sgil hyn, cafodd nifer o argymhellion sylweddol eu cyflwyno i'r bwrdd iechyd.

## Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Fawrhydi (HMICFRS)

Gwerthusodd HMICFRS ei rhaglen arolygu dalfeydd ar y cyd eleni, gan nodi nifer o feysydd lle mae arolygiadau o ddalfeydd wedi arwain at welliannau i les ac urddas yr unigolion a gaiff eu cadw ynddynt. Mae hyn yn cynnwys newidiadau i ddeddfwriaeth a chodau ymarfer Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol. Arolygodd HMICFRS naw o ddalfeydd yr heddlu yng Nghymru a Lloegr yn ystod y flwyddyn. Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd HMICFRS fersiwn 4 o'r disgwyliadau ar gyfer dalfeydd yr heddlu.

## Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban (HMICS)

Cynhaliodd HMICS bum adolygiad dros y flwyddyn adrodd: yr adolygiad ar y cyd o wyriadau oddi wrth erlyniad, yr adolygiad sylfaenol cenedlaethol ar y cyd o ddarpariaeth gofal iechyd yng nghanolfannau cadw'r heddlu yn yr Alban, yr adolygiad sicrwydd o ddarpariaeth tocsicoleg Awdurdod Heddlu'r Alban, adolygiad sicrwydd o fodel asesu cyswllt Police Scotland, ac adolygiad sicrwydd o waith cynllunio gweithlu strategol Police Scotland.



Yn ogystal ag arolygiadau o ddalfeydd yr heddlu, cynhaliodd HMICS arolygiad thematig o gam-drin domestig (cam 1), arolygiadau ar y cyd o wasanaethau cymorth ac amddiffyn oedolion, ac arolygiadau ar y cyd o wasanaethau i blant a phobl ifanc sy'n wynebu risg o niwed.

Gwnaeth HMICS 45 o argymhellion i Police Scotland, Awdurdod Heddlu'r Alban a Llywodraeth yr Alban drwy gydol y flwyddyn. Cytunodd â Police Scotland ac Awdurdod Heddlu'r Alban i ollwng 42 o argymhellion o arolygiadau a gwblhawyd rhwng 2015 a 2021. Roedd 84 o argymhellion heb eu bodloni o hyd ar ddiwedd y flwyddyn adrodd.

## Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer Cymru a Lloegr (HMIP)

Cyhoeddodd HMIP 83 o adroddiadau arolygu, adolygiad annibynnol o gynnydd ac adroddiadau thematig rhwng 1 Ebrill 2022 a 31 Mawrth 2023. Ym mis Hydref, cynhaliodd HMIP hefyd arolygiad y tu allan i'w hawdurdodaeth yng Ngogledd Iwerddon. Cyhoeddwyd un llythyr hysbysu brys mewn perthynas â Charchar Ei Fawrhydi Caerwysg.

Cyhoeddwyd adroddiadau thematig ar y canlynol:

- profiadau carcharorion du gwrywaidd (oedolion) a staff carchar du
- profiadau mewnfudwyr dan gadwad mewn carchardai
- plant yn y ddalfa
- effaith pandemig COVID-19 ar y system cyfiawnder troseddol
- trefniadau amlasiantaethol ar gyfer diogelu'r cyhoedd
- adolygiad thematig o ganlyniadau i ferched mewn dalfeydd
- arolygiad thematig ar y cyd o reoli troseddwyr yn y ddalfa – cyn eu rhyddhau (gydag Arolygiaeth Prawf Ei Fawrhydi)
- penwythnosau yn y carchar.

Lluniodd HMIP gyflwyniadau ysgrifenedig ar gyfer gwaith craffu cyn-ddeddfwriaethol y Pwyllgor Cyfiawnder ar y Bil Dioddefwyr drafft (cyflwyniad arolygu ar y cyd cyfiawnder troseddol), y Cydbwyllgor ar y Bil Iechyd Meddwl drafft, ac adolygiad statudol y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol o gydraddoldeb a hawliau dynol ym Mhrydain. Rhoddodd y Prif Arolygydd ar gyfer Carchardai dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor Dethol ar Gyfiawnder ar waith yr arolygiaethau cyfiawnder troseddol, rôl remand mewn lleoedd cadw i oedolion yn y system cyfiawnder troseddol, a'r gweithlu gweithredol mewn carchardai, ac i'r Cydbwyllgor Hawliau Dynol ar hawliau dynol ceiswyr lloches yn y DU.

## Arolygiaeth Carchardai Ei Fawrhydi ar gyfer yr Alban (HMIPS)

Cynhaliodd HMIPS bedwar arolygiad llawn o garchardai a saith arolygiad o ddalfeydd llysoedd dros y flwyddyn adrodd. Cyflwynodd dystiolaeth i bedair sesiwn yn Senedd yr Alban a dau ymchwiliad cyhoeddus, ac ymatebodd i ymgyngoriadau Llywodraeth yr Alban ar y Bil Gofal a Chyfiawnder Plant arfaethedig a'r Bil Mechnïaeth a Rhyddhau arfaethedig. Cynhaliodd HMIPS bedwar adolygiad thematig mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid allweddol ar gynnydd, arwahanu, gwyriadau oddi wrth erlyniad, a sicrwydd ynghylch rheolaeth ac atal ar gyfer Ysgrifenyddiaeth y Cabinet.

## Cymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd (ICVA)

Mae ICVA wedi canolbwyntio ar dri phrif faes o waith polisi yn ystod y flwyddyn adrodd. Mae ICVA wedi gweithio gyda chynlluniau i asesu lefelau goleuadau yn dilyn adroddiadau gan unigolion dan gadwad fod y goleuadau yn rhy lachar i'w galluogi i gysgu yn eu celloedd. Canlyniad y gwaith polisi hwn oedd bod y Canllaw Dylunio Cenedlaethol ar gyfer dalfeydd yr heddlu (sy'n gymwys i adeiladau newydd a gwaith adnewyddu ar raddfa fawr) wedi cael ei ddiwygio i lefel is o oleuadau, sy'n taro cydbwysedd mwy effeithiol rhwng angen a chysur unigolion dan gadwad. Gofynnwyd i bob dalfa bresennol wirio'r lefelau goleuadau a'u gostwng os yw hynny'n bosibl.

Mae ICVA wedi parhau â'i gwaith i leihau'r defnydd amhriodol o ddillad gwrth-rwygo mewn dalfeydd. Ym mis Rhagfyr 2023, cyhoeddodd werthusiad interim o waith gyda safle peilot yn ardal Dyfed Powys a wnaeth argymhellion i randdeiliaid plismona ynghylch y defnydd a wneir o'r dillad, drwy rym, yn absenoldeb gwybodaeth am risg.[135] Cafwyd ymateb cadarnhaol ar y cyfan i'r argymhellion hyn a bydd ICVA yn llunio gwerthusiad llawn yn 2024, gan gynnwys diweddariad ar yr ymatebion i'r argymhellion a gwaith parhaus.

Y trydydd maes thematig o effaith ar bolisi yw gwaith ar sefydlu llwybr atgyfeirio newydd i fenywod sy'n profi symptomau perimenopos a menopos yn nalfeydd yr heddlu. Gweithiodd Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Sussex ac ICVA ar gyfres o argymhellion i randdeiliaid plismona er mwyn sefydlu llwybr atgyfeirio newydd, gan lunio cynllun gofal ar gyfer menywod mewn dalfeydd sy'n profi symptomau. Disgwylir i'r gwaith hwn ddod i ben yn 2024.

## Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn yr Alban

Mae ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn sicrhau bod dalfeydd yr heddlu yn yr Alban yn cynnal y safonau rhyngwladol a bennwyd gan y Cenhedloedd Unedig er mwyn atal arteithio, a thriniaeth greulon, annynol neu israddiol yn erbyn pobl yn y ddalfa. Cynhaliodd ymwelwyr annibynnol fwy na 1,000 o ymweliadau yn ystod y flwyddyn adrodd gan siarad â mwy na 1,600 o bobl mewn dalfeydd. Lansiodd y Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd yn yr Alban dempled adrodd newydd eleni i symleiddio'r broses o gofnodi arsylwadau a gwella ansawdd data. Mae gwaith yn mynd rhagddo i ddigideiddio adroddiadau.

## Bwrdd Monitro Annibynnol (IMB)

Rhoddodd Cadeirydd Cenedlaethol yr IMB ac aelodau o'r bwrdd rheoli dystiolaeth lafar ac ysgrifenedig i bwyllgorau a grwpiau seneddol ar bynciau fel amodau mewn lleoedd cadw mewnfudwyr, carchar ar gyfer dedfrydau diogelu'r cyhoedd, profiadau menywod yn y system cyfiawnder troseddol, a staffio mewn carchardai.

## Byrddau Monitro Annibynnol (Gogledd Iwerddon)

Mae gan Garchar Ei Fawrhydi Maghaberry, Carchar Ei Fawrhydi Magilligan, a Charchar Menywod a Choleg Hydebank Wood IMB yr un. Parhaodd yr IMB i fonitro cynnydd mewn perthynas ag argymhellion a gwelliannau a nodwyd yn adolygiad y CJI o Unedau Gofal a Goruchwyliaeth drwy gydol y flwyddyn.

135 Anti-rip clothing in custody: Interim evaluation – Cymdeithas yr Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd **(icva.org.uk)**

## Adolygwr Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth

Mae'r Adolygwr Annibynnol Deddfwriaeth Terfysgaeth yn parhau i weithio ar ei fandad craidd, gan weithio'n agos gyda phartneriaid i fynd i'r afael â phryderon a'u lliniaru..

## Sylwedyddion Lleyg

Cododd Sylwedyddion Lleyg bryderon difrifol am y ffordd roedd unigolion dan gadwad yn cael eu trin, gan ganolbwyntio'n benodol ar blant a phobl ifanc ac effaith prinder staff. Roedd Sylwedyddion Lleyg yn poeni am oedi diangen o ran amseroedd teithio yn ôl ac ymlaen o lysoedd, ac oedi cyn rhyddhau unigolion ar ôl ymddangosiadau llys. Canfu Sylwedyddion nad oedd bron i un o bob pum dogfen swyddogol yn cynnwys gwybodaeth gywir a chyflawn, sy'n atal swyddogion dalfeydd rhag llunio asesiadau risg effeithiol ac yn rhoi unigolion dan gadwad mewn perygl..

## Comisiwn Lles Meddyliol yr Alban (MWCS)

Canfu MWCS fod angen gweithredu ar frys mewn perthynas â gwasanaethau iechyd meddwl mewn carchardai yn yr Alban, ddeng mlynedd ar ôl iddo gyhoeddi canfyddiadau tebyg. Yn ystod y flwyddyn, ymatebodd MWCS i Adolygiad o Gyfraith Iechyd Meddwl yr Alban, cyfrannodd ddadansoddiad o driniaeth orfodol ar gyfer salwch meddwl ar gyfer diwygiadau cyfreithiol yn y dyfodol, a nododd gynnydd yn nifer y bobl ifanc a gaiff eu derbyn i wardiau iechyd meddwl i oedolion.

## Ofsted

Mae Ofsted yn arwain arolygiadau o ganolfannau hyfforddi diogel gyda chymorth HMIP a'r CQC. Mae canfyddiadau'n dangos o hyd nad yw plant yn cael gofal digon da, oherwydd ni farnwyd bod unrhyw ganolfan hyfforddi ddiogel yn haeddu dyfarniad uwch na 'gwelliannau'n ofynnol er mwyn bod yn dda' ers 2016. Mae Ofsted yn arolygu ac yn rheoleiddio 13 o gartrefi diogel i blant yn Lloegr, gyda chymorth y CQC. Dengys canfyddiadau'r arolygiadau fod cartrefi diogel i blant yn darparu lefel dda o ofal diogel i blant ar y cyfan. Mae Ofsted wedi parhau i weithio'n agos gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder a'r Gwasanaeth Ieuenctid yn y Ddalfa, gan gefnogi eu dealltwriaeth o'r gofynion i gofrestru'r academi 16-19 ddiogel gyntaf a gaiff ei rheoleiddio gan Ofsted a'i harolygu gan Ofsted a'r CQC. Mae Ofsted hefyd yn cefnogi arolygiadau HMIP o sefydliadau troseddwyr ifanc yn Lloegr gan asesu'r ddarpariaeth addysg.

## Cynllun Ymwelwyr Annibynnol â Dalfeydd Bwrdd Plismona Gogledd Iwerddon

Roedd ymwelwyr wedi cynnal 489 o ymweliadau ac wedi gwirio 960 o gofnodion dalfeydd yn ystod cyfnod adrodd 2022-23. Ymwelodd ymwelwyr annibynnol â dalfeydd ag oddeutu 14% o'r unigolion a arestiwyd o dan y Ddeddf Terfysgaeth a 2.5% o'r rhai a arestiwyd o dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol.

Roedd y materion a godwyd amlaf gan ymwelwyr annibynnol â dalfeydd yn ymwneud â sylw meddygol, ac yna'r ffaith bod angen oedolyn priodol ar unigolion dan gadwad, bod angen hysbysu rhywun eu bod wedi cael eu cadw, a'u bod yn cael digon o fwyd a diod.

Holwyd ymwelwyr â dalfeydd ynghylch eu canfyddiadau ar gyfer adroddiad hawliau dynol y Bwrdd Plismona, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2023. Mae'r Bwrdd Plismona yn mynd i'r afael ag argymhellion, gan gynnwys adolygu a diweddaru'r llawlyfr i ymwelwyr annibynnol â dalfeydd, ar y cyd â chynghorydd hawliau dynol y bwrdd. Ar ôl iddo gael ei gwblhau, caiff y llawlyfr ei gyflwyno i ymwelwyr annibynnol â dalfeydd presennol a Gwasanaeth Heddlu Gogledd Iwerddon fel y gellir ymgynghori arno.

## Yr Awdurdod Rheoleiddio a Gwella Ansawdd (RQIA)

Yr RQIA yw'r corff annibynnol sy'n gyfrifol am fonitro ac arolygu argaeledd ac ansawdd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon, ac annog gwelliannau i ansawdd y gwasanaethau hynny.

Dyletswydd gyffredinol yr RQIA o dan Orchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986 yw parhau i adolygu'r gofal a'r driniaeth a roddir i bobl sy'n dioddef o anhwylder meddwl, neu sy'n ymddangos fel pe baent yn dioddef o anhwylder meddwl. Mae ganddo gyfrifoldebau penodol i asesu gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol (mewn lleoliad acíwt neu gymunedol) a ddarperir i bobl â salwch meddwl neu anabledd dysgu, ac ymchwilio i unrhyw achos lle gall fod camdriniaeth, diffygion o ran gofal neu driniaeth, achosion o gadw pobl yn amhriodol mewn ysbyty neu o dan warcheidiaeth, neu risg o golled neu ddifrod i eiddo claf o ganlyniad i'w anhwylder meddwl. Mae'r RQIA yn cynnal arolygiadau o 51 o wardiau iechyd meddwl ac anableddau dysgu a'r uned ddiogel ranbarthol i blant. Mae'n adolygu dros 8,000 o ffurflenni asesu'r gorchymyn iechyd meddwl a 1,000 o ystafelloedd cysgu dan gadwad bob blwyddyn. Mae'n goruchwylio ceisiadau am ail farn mewn perthynas â Rhan IV o Orchymyn Iechyd Meddwl (Gogledd Iwerddon) 1986, gan gynnwys adolygiadau o feddyginiaeth ac adolygiadau mewn perthynas â therapi electrogynhyrfol. Mae hefyd yn asesu ansawdd gofal iechyd mewn carchardai drwy arolygiadau ar y cyd â'r Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol, Arolygiaeth Cyfiawnder Troseddol Gogledd Iwerddon, a'r Arolygiaeth Addysg a Hyfforddiant.

## Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban

Cododd Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban amrywiaeth o bryderon hawliau dynol â chyrff y Cenhedloedd Unedig dros y flwyddyn. Cyfrannodd y Comisiwn at Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig o'r DU ym mis Ebrill 2022 a chododd faterion a oedd yn peri pryderon o ran diogelu ac arddel hawliau dynol yn yr Alban drwy ymgysylltu'n uniongyrchol ag aelod-wladwriaethau drwy gydol haf a hydref 2022. Cynhaliwyd deialog Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol y DU ym mis Tachwedd 2022, pan godwyd nifer o bryderon am gyfiawnder troseddol ac amodau mewn lleoedd cadw. Mae'r Comisiwn yn parhau i ymgysylltu â llywodraeth y DU a Llywodraeth yr Alban er mwyn helpu i roi'r argymhellion ar waith ac mae'n cynllunio gwaith sy'n ymwneud â chamau gweithredu sy'n benodol i'r Alban. Ym mis Ionawr 2023, cyflwynodd y Comisiwn adroddiad cyfochrog i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol a nodyn ategol i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Rhoddodd y Comisiwn dystiolaeth lafar hefyd i'r Pwyllgor ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol ym mis Mawrth 2022.

Cyflwynodd Comisiwn Hawliau Dynol yr Alban friffiadau a thystiolaeth lafar hefyd i bwyllgorau seneddol yn y DU a'r Alban ynghylch deddfwriaeth sy'n effeithio ar leoedd cadw. Mae hyn yn cynnwys gwaith craffu deddfwriaethol y Cydbwyllgor Hawliau Dynol ar Fil y Bil Hawliau, Bil Gwasanaeth Gofal Cenedlaethol (Yr Alban) a'r Adolygiad o Gyfraith Iechyd Meddwl yr Alban. Cyhoeddodd y Comisiwn ddeunyddiau er mwyn helpu i ystyried Bil Hawliau Dynol newydd yn yr Alban, gan gynnwys papur briffio ar rwymedigaethau craidd gofynnol ar gyfer ymchwiliad meithrin capasiti Pwyllgor Cydraddoldeb, Hawliau Dynol a Chyfiawnder Sifil Senedd yr Alban.

